

## Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Llinos Madeley  
Dyddiad: Dydd Iau, 12 Gorffennaf 2018 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 09.15 0300 200 6565  
[SeneddPPIA@cynulliad.cymru](mailto:SeneddPPIA@cynulliad.cymru)

---

### Rhag-gyfarfod preifat

(09:15 – 09:30)

#### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

**Dogfennau atodol:**

#### 2 Ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach – sesiwn dystiolaeth 1

(09:30 – 10:30)

(Tudalennau 1 – 48)

Yr Athro Nora de Leeuw, Dirprwy Is-ganghellor, Rhyngwladol ac Ewrop ym Mhrifysgol Caerdydd

Yr Athro Maria Hinfelaar, Is-ganghellor a Phrif Weithredwr Prifysgol Glyndŵr

Yr Athro Medwin Hughes, Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  
Berwyn Davies, Pennaeth Swyddfa Addysg Uwch Cymru Brwsel

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

CYPE(5)-22-18 – Papur 1 – Prifysgol Caerdydd

CYPE(5)-22-18 – Papur 2 – Prifysgol Wrecsam Glyndŵr (Saesneg yn unig)

CYPE(5)-22-18 – Papur 3 – Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel

(Saesneg yn unig)

### Egwyl

(10:30 – 10:45)



### **3 Ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach – sesiwn dystiolaeth 2**

(10:45 – 11:45)

(Tudalennau 49 – 51)

Mike James, Prif Weithredwr Coleg Caerdydd a'r Fro

David Jones, Prif Weithredwr Coleg Cambria

Caroline James, Cyfarwyddwr Cyllid, Coleg Sir Benfro

Claire Roberts, Cyfarwyddwr Materion Allanol, ColegauCymru

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur 4 – ColegauCymru (Saesneg yn unig)

### **4 Papurau i'w nodi**

(11:45)

**Dogfennau atodol:**

#### **4.1 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan CLILC yn dilyn y cyfarfod ar 6 Mehefin**

(Tudalennau 52 – 53)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 1 (Saesneg yn unig)

#### **4.2 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 6 Mehefin**

(Tudalennau 54 – 73)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 2

#### **4.3 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan Cyllid a Thollau EM yn dilyn y cyfarfod ar 24 Mai**

(Tudalennau 74 – 75)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 3 (Saesneg yn unig)

#### **4.4 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol yn dilyn y cyfarfod ar 14 Mehefin**

(Tudalennau 76 – 78)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 4

- 4.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Y diweddaraf ar ddatblygiad y cwricwlwm newydd**

(Tudalennau 79 – 82)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 5

- 4.6 Llythyr oddi wrth Dr Hayley Roberts – Polisi Derbyn ar gyfer Plant sydd Wedi'u Geni yn yr Haf**

(Tudalennau 83 – 84)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 6 (Saesneg yn unig)

- 4.7 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Cod Trefniadaeth Ysgolion**

(Tudalennau 85 – 86)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 7

- 4.8 Llythyr oddi wrth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – penodi Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim**

(Tudalen 87)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 8

- 4.9 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon at Brif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru**

(Tudalennau 88 – 89)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-22-18 – Papur i'w nodi 9 (Saesneg yn unig)

- 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn**

**Dogfennau atodol:**

**6 Ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach –  
trafod y dystiolaeth**

(11:45 – 12:00)

**Dogfennau atodol:**

**7 Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru) – Trafod yr adroddiad drafft**

(12:00 – 13:00)

**Dogfennau atodol:**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## CYPE(5)-22-18 – Papur 1

Ar ran Prifysgol Caerdydd, gweler ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach ynghlwm.

Fel y gwyddoch, mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol a chanddi weledigaeth feiddgar a strategol ac mae wedi'i lleoli mewn prifddinas hardd a ffyniannus. Daeth ein gwaith ymchwil rhagorol yn 5ed am ansawdd ac yn 2il am effaith ymysg prifysgolion y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014. Rydym yn cynnig profiad addysgol rhagorol i'n myfyrwyr. Drwy roi pwyslais ar greadigrwydd a chwilfrydedd, ein nod yw cyflawni ein rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, a'r byd.

Ein huchelgais yw bod ymhlith y 100 o brifysgolion gorau'r byd a'r 20 uchaf yn y DU. Mae ein strategaeth newydd yn amlinellu ein cyfeiriad strategol a'n pwyslais ar ymchwil, arloesedd, addysg a myfyrwyr, ynghyd â'n cenhadaeth ryngwladol a dinesig. Mae 31,595 o fyfyrwyr wedi cofrestru gyda ni, sy'n hanu o dros 130 o wledydd, gan gynnwys yr UE. Mae gennym gymuned ymchwil sy'n arwain y byd gyda sylfaen ymchwil gref ac eang, ac rydym wedi ennill contractau ymchwil â chyfanswm gwerth dros £530 miliwn. Rydym wedi ennill saith o Wobrau Pen-blwydd y Frenhines ac mae dau o enillwyr gwobrau Nobel ymhlith ein hymchwilwyr.

Dros y misoedd diwethaf, mae cydweithwyr a fi wedi darllen papurau Brexit Llywodraeth Cymru ar bolisi masnach a buddsoddi rhanbarthol â diddordeb. Rwyf i'n croesawu ymgysylltu rhagweithiol Llywodraeth Cymru gyda rhai o'r heriau mawr sy'n wynebu ein heconomi yng ngoleuni'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Edrychaf ymlaen at weld adroddiad terfynol eich pwyllgor, a byddwn yn fwy na hapus i gyfrannu at unrhyw drafodaethau y gallech fod yn eu cynnal ar y pwyntiau a godir uchod. Cysylltwch â mi ar bob cyfrif os oes angen unrhyw wybodaeth arall arnoch.

Yr Athro Colin Riordan

## Trosolwg

1. Bydd cymorth ar gyfer addysg uwch yn hanfodol os yw Cymru a'r DU i sicrhau llwyddiant yn sgil Brexit. Drwy sicrhau setliad effeithiol ôl-Brexit, gall prifysgolion barhau i wneud cyfraniad hanfodol i wlad lwyddiannus sy'n ddeinamig ac yn gystadleuol yn rhyngwladol, a pharhau i ddenu doniau rhyngwladol.
2. Mae Prifysgol Caerdydd yn sbardun allweddol ar gyfer ffyniant economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn brifysgol fyd-eang sy'n edrych tuag allan gyda chysylltiadau â thros 100 o wledydd, yn ogystal ag ymdeimlad cryf o genhadaeth ddinesig. Canfu adroddiad gan London Economics yn 2016 fod Prifysgol Caerdydd yn cyfrannu bron i £3bn i economi'r DU, a bod y brifysgol wedi gwneud cyfraniad o tua £2.2bn i economi Cymru yn 2014-15. Mae Prifysgol Caerdydd yn cynhyrchu £6.36 am bob £1 y mae'n ei gwario, ac roedd yn un o'r pum prifysgol ar y brig yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mae ein gwaith ymchwil yn mynd i'r afael â heriau o arwyddocâd byd-eang tra bo ein myfyrwyr yn cael profiad myfyriwr sy'n sgorio ymhlith y gorau yn y Deyrnas Unedig.
3. Er ein bod yn croesawu'r cynnydd a wnaed hyd yma gan Lywodraeth y DU ar y cytundeb pontio, mae llawer yn dal i fod ar ôl heb ei drafod. Bydd y trafodaethau hynny'n gymhleth ac mae posibilrwydd cryf y bydd unrhyw gytundeb ar Horizon 2020 ac Erasmus+ yn dibynnu ar ddod i gytundeb boddhaol ynghylch materion eraill fel rhan o becyn, a allai achosi oedi fydd yn ein rhoi dan bwysau amser unwaith eto cyn y bydd Prydain yn ymadael yn gyfan gwbl yn 2021. Mae ar y sector prifysgolion wir angen datrys materion o'r fath o leiaf 18 mis ymlaen llaw - hynny yw, erbyn canol 2019 fan bellaf - er mwyn osgoi newid sydyn, neu o leiaf bwlch rhwng diwedd Horizon 2020 ac Erasmus+ a'r rhaglenni a ddaw ar eu hôl. Byddai pontio bwlch o'r fath yn anodd ac ni fyddai'n sefyllfa ddelfrydol, a gallai olygu y byddem yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu'n ddigonol â'r rhaglenni olynol pan fydd gennym fynediad atynt. Fodd bynnag, rydym yn llwyr groesawu ymrwymiad y Prif Weinidog yn ei haraith yn Jodrell Bank ar 21 Mai 2018, o ran talu am "gysylltiad llawn" â rhaglenni ymchwil yr UE. Ar ben hynny, mae materion cysylltiedig fel treialon clinigol a'r fframwaith diogelu data, a allai gael effaith go iawn ar ymchwil. Ceir ewyllys da ar y ddwy ochr i fynd i'r afael â'r holl gwestiynau hyn a'u datrys, a bydd gennym ddigon o amser i wneud hynny yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, mae llawer yn dibynnu ar ddatrys y problemau mawr yn ystod y chwe mis nesaf.
4. Nodwn adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Allanol i berthynas Cymru yn y dyfodol gyda'r UE, a chroesawn y canfyddiadau canlynol yn gryf:
  - Argymhelliad 6. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n ceisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar yr amserlenni ar gyfer symud i system fewnfudo yn y dyfodol ar y cyfle cyntaf er mwyn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar fusnesau a chyrrff sector cyhoeddus ynghylch ystyriaethau recriwtio y gallent eu hwynebu yn y dyfodol.

- Argymhelliad 10. Os na cheir cytundeb ar Horizon 2020 ac unrhyw raglenni fydd yn ei holynu rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd y gallai barhau i ddarparu cymorth i sefydliadau Cymru allu cydweithio gyda chymheiriaid Ewropeaidd ar ôl Brexit.
- Argymhelliad 11. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n edrych ar y potensial ar gyfer rhaglen symudedd myfyrwyr rhyngwladol newydd ar ôl Brexit, a'i bod yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor o fewn chwe mis.
- Argymhelliad 12. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n mapio holl rwydweithiau presennol yr UE, ar draws pob sector, y mae sefydliadau Cymreig yn cyfranogi ynddynt. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio hwn erbyn mis Mehefin 2018.
- Argymhelliad 13. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori gyda rhanddeiliaid ar bwysigrwydd y gwahanol rwydweithiau hyn, eu manteision i Gymru, a pha rwydweithiau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad ar ôl Brexit. Dylid cwblhau'r ymgynghoriad erbyn hydref 2018.
- Argymhelliad 14. Argymhellwn, ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad, y dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn cyfranogiad Cymreig yn y rhwydweithiau hyn, ac ystyried y cyfleoedd ariannu a'r goblygiadau i gymdeithas sifil Cymru er mwyn parhau i gydweithio gyda phartneriaid mewn rhwydweithiau allweddol.
- Argymhelliad 17. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n archwilio cyfleoedd i gyrrff llywodraethol ac anlywodraethol yng Nghymru allu ymgysylltu'n effeithiol gyda'r UE a'i sefydliadau ar ôl Brexit.

Anogwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gryf i ystyried cefnogi ac ehangu'r argymhellion hyn fel rhan o'ch ymchwiliad eich hun.

5. Ymdrinnir isod â'n hymatebion i gwestiynau penodol yr ymchwiliad. Er mwyn osgoi ailadrodd, mae rhai o'r cwestiynau wedi'u grwpio.

### Cwestiwn 1: Beth yw'r heriau posibl i lwyddiant dysgwyr a chyflogadwyedd ôl-Brexit, a beth sy'n cael ei wneud a gellid ei wneud i ddiwallu'r rhain?

Mae Prifysgol Caerdydd yn credu bod perygl i lwyddiant dysgwyr os nad yw myfyrwyr o'r UE yn penderfynu astudio ym mhrifysgolion yn y DU mwyach. Rydym o'r farn fod cael myfyrwyr (a staff) o'r UE a ledled y byd yn creu amgylchedd dysgu amrywiol a buddiol. Mae'r amrywiaeth hon yn meithrin creadigrwydd ac arloesedd, ac mae'n rhan hollbwysig o'n diwylliant. Er ein bod wedi croesawu'r cadarnhad y bydd myfyrwyr o'r UE sy'n astudio yma ar hyn o bryd yn derbyn cymorth i fyfyrwyr drwy gydol eu hastudiaethau, mae'n bosibl y caiff hyn ei wrthbwyso gan y canfyddiad fod y DU yn ddigroeso. Gallai hyn gael effaith ar fyfyrwyr sy'n bwriadu dod eleni, ac ar recriwtio dros y blynyddoedd sydd i ddod. Byddem o blaid sicrhau bod myfyrwyr o'r UE hefyd yn cael sicrwydd tebyg ynghylch mynediad at gymorth ariannol y llyfr benthyciadau ar gyfer myfyrwyr o'r



UE sy'n dechrau cyrsiau yn 2019/20. Credwn y bydd hyn yn cyfrannu rywfaint at sicrhau myfyrwyr o'r UE fod croeso iddynt yn y DU ac y cânt eu gwerthfawrogi. Mae ymchwil yn dangos bod profiad rhyngwladol yn gwella canlyniadau academaidd a chyflogadwyedd myfyrwyr. Er enghraifft, mae myfyrwyr sy'n mynd dramor 9% yn fwy tebygol o ennill gradd dosbarth cyntaf neu radd 2:1, 24% yn llai tebygol o fod yn ddi-waith, a 9% yn fwy tebygol o fod mewn swydd i raddedigion o fewn chwe mis ar ôl graddio, o'u cymharu â'r rhai nad ydynt yn mynd dramor. Y myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig a grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig sydd â'r mwyaf i'w ennill. Ym Mhrifysgol Caerdydd, dangosodd dadansoddiad yn 2016 fod myfyrwyr sydd wedi bod ar leoliad rhyngwladol yn fwy tebygol o gael canlyniad 'cadarnhaol' yn yr arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE), a bod y gwahaniaeth yn ystadegol bwysig.

**Cwestiwn 2: I ba raddau y byddai colli unrhyw ran o gynllun symudedd Erasmus+ yr UE yn cael effaith ar y sector, a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer cynlluniau symudedd eraill sy'n bodoli ar hyn o bryd, neu y gellid eu datblygu o bosibl?**

Mae angen sicrwydd cynnar ynghylch mynediad parhaus i Erasmus+, ond os bydd hynny'n amhosibl neu'n rhywbeth na ddymunir, rhaid sicrhau cynllun amnewid i Gymru neu'r DU a fydd yn caniatáu i'n myfyrwyr astudio, gweithio a gwirfoddoli dramor.

Yn ystod 2016/17, roedd 20.2% o fyfyrwyr cartref israddedig wedi bod yn symudol yn rhyngwladol yn ystod eu hamser ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu llawer o'r rhain yn cymryd rhan yn y rhaglen Erasmus+, a oedd yn helpu i wella datblygiad personol myfyrwyr, eu dealltwriaeth ryng-ddiwylliannol, a'u galluoedd ieithyddol, yn ogystal â datblygu llawer o'r sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Credwn fod Brexit yn cynnig cyfle i greu rhaglen symudedd allanol ryngwladol newydd a allai efelychu ac efallai gwella elfennau mwyaf llwyddiannus Erasmus+. Byddai hyn yn caniatáu i brifysgolion barhau â'u cydweithio gwerthfawr â phartneriaid yn yr UE a chefnogi pob un o'n myfyrwyr i dreulio cyfnod gorfodol dramor fel rhan o'u cyrsiau perthnasol, yn ogystal â chefnogi'r broses ehangach o ryngwladoli addysg yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

**Cwestiwn 3: Pa heriau allai Brexit eu peri i gynaliadwyedd ariannol sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch?**

Mae oddeutu 7% o incwm ffioedd dysgu Prifysgol Caerdydd yn dod o fyfyrwyr o'r UE sy'n hanu o'r tu allan i'r DU (Ffurflen Gyllid 2016-17 HESA). Mae hwn yn ffigur sylweddol, a bydd yn debygol o fod yn debyg â sefydliadau eraill o Gymru.

Mae'r DU yn fuddiolwr net o gyllid ymchwil o Ewrop. Mae angen cynnal gwariant cyffredinol ar ymchwil a datblygu ar y lefelau presennol o leiaf i ddiogelu adnoddau ymchwil a gwyddoniaeth yn y DU ac i gynnal ein safle fel arweinydd byd yn y maes. Dylai Llywodraeth y DU ystyried o ddifrif y posibilrwydd o drafod mynediad llawn i arian y rhaglen fframwaith. Fel arall, byddai angen darparu hyn drwy gynyddu'r gyllideb genedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth ac ymchwil hyd at yr

hyn sy'n cyfateb i'r swm a sicrhawyd gan Horizon 2020, gan gydnabod bod y DU yn fuddiolwr net rhaglenni ymchwil yr UE. Cyfanswm gwerth yr arian a gafwyd drwy brosiectau Erasmus+ KA103 a KA107 hyd yma (ers 2014/15) yw €4,097,514.25.

**Cwestiwn 4: Pa mor ddibynnol y mae cynlluniau buddsoddi sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach ar gyllid o Ewrop, a beth yw'r cyfleoedd ar gyfer cael ffynonellau gwahanol o gyllid buddsoddi?**

Mae prifysgolion yng Nghymru yn derbyn arian sylweddol o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, ac mae hynny'n parhau i ddarparu buddsoddiad a chyllid hanfodol ar gyfer prosiectau a seilwaith sy'n cyfrannu at dwf economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Mae Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd hefyd wedi chwarae rôl bwysig o ran arian arloesedd yng Nghymru, a buddsoddiad preifat mewn ymchwil a datblygiad. Yn ogystal, mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r DU wedi elwa'n sylweddol ar fenthylg gan Fanc Buddsoddi Ewrop. Ymchwil ac arloesedd o ansawdd uchel yw conglfeini economi twf, ac mae manteision yn deillio ohonynt ar gyfer holl gymunedau Cymru.

Ceisir eglurhad brys ynghylch sut bydd y cronfeydd hyn yn cael eu cynnal neu eu disodli ar lefel ddatganoledig wedi i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd fel bod modd i brifysgolion Cymru barhau i gael cymaint o effaith economaidd a chymdeithasol â phosibl mewn cymunedau ledled Cymru.

Os bydd y Deyrnas Unedig yn dymuno sefydlu cronfa datblygu rhanbarthol newydd, megis y Gronfa Ffyniant a Rennir arfaethedig yn y Deyrnas Unedig, yn lle Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, mae'n hanfodol ei bod yn dyrannu cyllid yn briodol i Gymru ac ar sail system debyg, seiliedig ar anghenion, os ydyw i helpu i ailgydbwyso'r economi.

**Cwestiwn 6: Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a beth y gellid ei wneud, i ddiogelu prosiectau ymchwil cydweithredol a rhwydweithiau ymchwil yr UE wrth baratoi ar gyfer Brexit ac ar ôl hynny?**

Yn ddiweddar, mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi y byddai'n hoffi i'r DU gael y dewis i "ymgysylltu'n llwyr â rhaglenni gwyddoniaeth ac arloesi Ewropeaidd sy'n seiliedig ar ragoriaeth - gan gynnwys yr olynnydd i Horizon 2020 a Euratom R&D". Ceisir sicrwydd felly y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i alluogi hyn, yn ogystal ag yn achosion rhaglenni ymchwil ac arloesi yr UE yn y dyfodol sy'n seiliedig ar ragoriaeth, gan gynnwys FP9, sef yr hyn a elwir bellach yn Horizon Europe. Os na fydd mynediad o'r fath yn bosibl - er enghraifft, os yw'r DU yn mabwysiadu statws 'Trydedd Wlad' - rhaid sicrhau cynllun arall fydd yn cynnal ymchwil ryngwladol ar y cyd.

Mae Prifysgol Caerdydd o'r farn fod angen cadw lefel gyffredinol y gwariant ar ymchwil a datblygu fel y mae ar hyn o bryd o leiaf i ddiogelu adnoddau ymchwil a gwyddoniaeth y Deyrnas Unedig, ac i gynnal safle'r Deyrnas Unedig fel un o arweinwyr y byd yn y maes hwn. Mae ymchwil ac arloesedd yn digwydd ar draws y byd, ac yn dibynnu ar syniadau a phobl sy'n gallu symud ar draws ffiniau. Nid yr

arian a ddarperir gan yr UE yn unig sydd dan sylw yma, ond hefyd y rhwydweithiau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ymchwilwyr. Mae parhau i gydweithio mewn rhwydweithiau rhyngwladol yn hanfodol bwysig os yw'r Deyrnas Unedig i gynnal ei statws fel arweinydd ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg, a datblygu diwylliant o arloesedd.

Os bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau mynediad parhaus drwy "gysylltiad llawn" at Horizon 2020 a rhaglenni ymchwil ac arloesedd yr UE yn y dyfodol, megis Horizon Europe, bydd yn bwysig sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddylanwadu ar y rhaglen ymchwil a'r mecanweithiau ariannu.

Os na all Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau mynediad parhaus, dylai'r Llywodraeth sicrhau darpariaeth ar ffurf cyfraniadau uwch i'r gyllideb genedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth ac ymchwil sy'n cyfateb i'r swm a sicrhawyd trwy Horizon 2020, gan gydnabod bod y Deyrnas Unedig yn fuddiolwr net presennol rhaglenni ymchwil yr UE. Dylai Llywodraeth y DU ystyried adeiladu ar fecanweithiau sy'n bodoli eisoes, megis y Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang sydd wedi'i thargedu a'r Gronfa Newton, gyda golwg ar ddatblygu rhagor o bartneriaethau dwyochrog (megis uwchgynhadledd ymchwil ddiweddar y Deyrnas Unedig ac Iwerddon).

Os na fydd y Deyrnas Unedig bellach yn rhan o fecanweithiau Ewropeaidd ar gyfer ariannu ymchwil ar ôl Brexit, dylai'r Llywodraeth ofyn i Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig (UKRI) awgrymu mecanweithiau eraill, megis Cyngor Ymchwil Rhyngwladol mewn partneriaeth â gwledydd blaenllaw eraill sydd â sylfaen wyddoniaeth uwch ddatblygedig.

Os na ellir sicrhau mynediad digonol at arian, neu os na ellir cael hyd i gyllid hirdymor arall, byddwn nid yn unig yn colli ffrwd ariannu fawr ac unigryw, ond hefyd y cyfleoedd i gymryd rhan mewn mentrau ymchwil cydweithredol rhyngwladol, sydd yr un mor bwysig. Mae cydweithio o'r fath yn elfen hanfodol o wyddoniaeth ragorol, a gallai unrhyw leihad yn hyn achosi niwed parhaol i ymdrechion ymchwil y Deyrnas Unedig.

Cyfanswm gwerth incwm ymchwil yn y dyfodol i Brifysgol Caerdydd o brosiectau byw FP7 a Horizon 2020 a ddyfarnwyd hyd at 22 Mai 2018 yw £34 miliwn, ac mae ceisiadau pellach gwerth £31.6 miliwn i Horizon 2020 ar y gweill. Hyd yn hyn yn Horizon 2020, dyfarnwyd bron i 80 o brosiectau i ni, gwerth cyfanswm o £30.7 miliwn, sy'n cwmpasu pynciau sy'n amrywio o ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o gysylltedd ynni adnewyddadwy i waith ymchwil ym maes diabetes. Cyfanswm gwerth y ceisiadau i Horizon 2020 sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd yw £31.6 miliwn. Yn ogystal, rydym wedi sicrhau £3.5 miliwn ychwanegol gan raglen Llywodraeth Cymru a ariennir gan yr UE, MSCA (Marie Skłodowska-Curie Actions) COFUND, i gefnogi 19 o gymrodoriaethau ymchwil unigol. Mae ein prosiectau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) o Gronfeydd Strwythurol yr UE hefyd wedi sicrhau £54 miliwn, ac mae £3.5 miliwn o brosiectau ychwanegol yn aros am gontract. Un derbynnydd sylweddol o'r arian hwn yw Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC).

## Cwestiwn 7: A oes unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn?

Yn ogystal â'r pwyntiau a wnaed uchod ynghylch Erasmus+, hoffem hefyd godi'r mater cyffredinol o ran statws staff a myfyrwyr o'r UE sy'n hanu o'r tu allan i'r DU ar ôl Brexit. Mae'n bwysig cadw niferoedd myfyrwyr o'r UE o'r tu allan i'r DU yn uchel yng Nghymru, nid yn unig er mwyn prifysgolion Cymru, lle maent yn cyfrif am bedwar y cant o'r holl fyfyrwyr, ond hefyd oherwydd eu bod yn dod ag amrywiaeth i'n corff myfyrwyr ac yn cefnogi'r economi leol. Canfu adroddiad diweddar gan Prifysgolion Cymru y canlynol:

- Cynhyrchodd gwariant myfyrwyr o weddill yr UE oddi ar y campws dros £110 miliwn o allbwn yn y DU (gyda £83 miliwn ohono yng Nghymru)
- Cynhyrchwyd cyfwerth â 934 o swyddi amser llawn yn y DU (692 yng Nghymru)
- Cynhyrchodd myfyrwyr o'r UE sy'n hanu o'r tu allan i'r DU dros £51 miliwn o werth ychwanegol gros y DU (£37 miliwn yng Nghymru)

Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae 16% o'n staff academaidd a 5% o'n myfyrwyr yn wladolion yr UE o'r tu allan i'r DU (mae 10% o'n myfyrwyr ymchwil yn wladolion yr UE). Cyfrannodd ein myfyrwyr rhyngwladol £217 miliwn i'r economi yn 2014/15. Maent yn ased hirdymor i bartneriaethau diwylliannol a masnachol y Deyrnas Unedig. Nid yw llawer o'r cyhoedd yn gweld myfyrwyr fel mudwyr, ac nid yw polisi o dorri'n ôl ar fyfyrwyr rhyngwladol er mwyn lleihau lefelau mudo net, felly, yn ymateb i'r pryder ynghylch mewnfudwyr. Heb gamau lliniaru fel ysgoloriaeth neu fwrsariaeth yr UE, mae Prifysgol Caerdydd yn bryderus y gallai'r senario waethaf olygu bod Cymru'n colli 80-90 y cant o'i myfyrwyr israddedig presennol o'r UE sy'n hanu o'r tu allan i'r DU.

Nodwn gyhoeddiad diweddar y Prif Weinidog ynghylch Cronfa Bontio'r UE gwerth £50 miliwn i gynnig "cyfuniad o gymorth ariannol a benthyciadau a chefnogi'r gwaith o ddarparu cyngor i fusnesau, gan gynnwys cyngor technegol a masnachol, cyngor ar allforio, a chyngor sy'n benodol ar gyfer sectorau". Yn ogystal, bydd y gronfa yn helpu "cyflogwyr i gadw a pharhau i ddenu dinasyddion yr UE, sy'n gwneud cyfraniad hanfodol i Gymru". Credwn fod achos cryf i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth penodol ar ffurf bwrsariaethau neu ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil o'r UE ar ôl Brexit.

Yn ymarferol, gallai hwyluso lleoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr yn Ewrop ddod yn fwy anodd, yn dibynnu ar ddatrys y gofynion am fisa.

Rydym hefyd yn dymuno tynnu sylw at effaith bosibl Brexit ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a'r hyn y gallai hyn ei olygu ar gyfer Prifysgol Caerdydd. Mae angen cael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig ynghylch elfen ariannu'r UE Bargen Ddinesig Caerdydd, yn benodol y £106 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer datblygu Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cytundeb gwerth £1.2bn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a'r deg awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'n ceisio gwella cynhyrchiant a sbarduno arloesi. Mae'n disgwyl creu 25,000 o swyddi ar draws y rhanbarth a denu gwerth £4bn o fuddsoddiad sector preifat.

Mae disgwyl i gyfranogiad y brifysgol fod yn llawer ehangach na hynny. Mae'r Fargen Ddinesig yn rhagweld potensial buddsoddi mewn meysydd eraill lle gall y brifysgol gynnig arbenigedd, megis datblygu meddalwedd a seiberddiogelwch, arloesedd ym maes gwasanaethau cyhoeddus, ynni ac adnoddau, y sector creadigol, iechyd a llesiant, a datblygu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei hun.

Rydym yn ceisio sicrwydd, felly, gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch statws cydran arian yr UE y Fargen Ddinesig, yn benodol y cyllid ERDF mewn prosiectau sydd yn yr arfaeth, sy'n cynnwys cyllid cymeradwy ar gyfer buddsoddi mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd a chymorth busnes, a dyrannu'r £106 miliwn cytunedig ar gyfer datblygu Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o'r ERDF.

## Casgliad

Mae Prifysgol Caerdydd yn ymroddedig i weithio gyda phartneriaid i gael hyd i'r llwybr gorau i Gymru a gweddill y wlad wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgil y bleidlais i adael yr UE, rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i gyfleoedd yn y cyd-destun rhyngwladol newydd. Rydym am barhau i ffurfio trefniadau cydweithredol cynhyrchiol ledled Ewrop a gweddill y byd.

## Learner Outcomes and Employability

Question 1: What are the potential challenges to learner success and employability post-Brexit, and what is and could be done to meet these?

Mobility of our graduates could be affected, since there will be barriers to employment in EU countries. The ‘four freedoms’ of the EU include the right to live and work across EU countries, with recognition of each other’s qualifications and seamless access to each other’s healthcare systems and other benefits. In several major population centres across the EU such as Amsterdam there are multinational corporations which currently employ significant numbers of native English speakers, and this may not be as straightforward in the future (for instance, UK nationals may lose out to Irish nationals).

Clearly there are concerns about a slowdown of the economy, which has already happened since the referendum. It remains to be seen what the longer term impact will be on the economy post Brexit, depending on whether there are sensible transition arrangements and to what extent access to the single market of the EU can be safeguarded. This will have a knock-on effect on graduate employability prospects. In addition, it is possible that the mix of economic sectors may change; in NE Wales there are several advanced manufacturing companies which are part of supply chains that operate across borders within the EU; if this becomes overly complicated other solutions will be sought by these companies. I have heard people expressing the expectation that the supply chain will be ‘brought home’, i.e. fully relocated to the UK and create new employment – this would clearly only happen if the majority of the customer base is also in the UK. Sadly, I do not believe that is the case for many of the multinational businesses operating in our region.

*To what extent would loss of the EU Erasmus+ mobility scheme impact on the sector and what are the opportunities for alternative schemes?*

Student exchange programmes will be affected. For instance, our School of Creative Arts attracts a number of Erasmus students every year and they contribute a great deal to the learning experience of our domestic students. It is particularly the creative industries where multicultural and multilingual influences can really enrich the curriculum and support community engagement activity; for instance, we currently have Welsh, English, Polish, Greek and Spanish arts students collaborating on an Erasmus-funded project “Alien”, in conjunction with Ty Pawb and the Enterprise Hub in regenerated parts of Wrexham town centre.

IF the UK chooses not to participate in Erasmus+ as a third country and pay a contribution, a solution to loss of access to Erasmus+ schemes could be bilateral agreements with partner universities for ‘closed pocket’ arrangements (no fees charged for exchange programmes). However, with our profile as a widening participation university, our students would need support grants and have their travelling expenses covered. This would require alternative public funding.

## Financial Sustainability and Investment

### What potential challenges might Brexit pose to the financial sustainability of FE and HE institutions?

Loss of EU enrolments; already, our applications from EU markets are down by approximately 30% compared with 17/18. Given the demographic downturn and the strong competition in the sector, it is unlikely that this shortfall will be made up by UK students.

It is possible that negative perceptions of Brexit, and doubts whether the UK is still a welcoming place for international students, are playing a part. It is acknowledged that several government departments and the British Council, as well as UUK and Universities Wales, are attempting to counteract these negative perceptions and support the universities with their marketing efforts.

Specifically for Welsh universities and our communication with prospective EU students or partners, we have discovered that there is a huge challenge in explaining the tuition fee increase associated with the implementation of Diamond for 2018/19, which gets conflated with Brexit even though there is no connection. The reality is that in the space of 3 years we will have three different funding regimes for EU students as follows:

- a) 2017/18 cohort: Welsh/EU students pay £4296 tuition fee, with access to the SLC.
- b) 2018/19 cohort: Welsh/EU students pay £9K tuition fee, with access to the SLC.
- c) 2019/20 cohort: Welsh/EU students will pay £9K tuition fee, but EU students will no longer have access to the SLC so will have to pay their full fees upfront.

It is extremely unlikely that there will be many EU students from 2019/20 who will be attracted to come and study here on that basis, and this will cause huge damage to the sustainability of many university programmes, which in turn will reduce the choices available to domestic students. For instance, 50% of the final year of some of our Engineering programmes is currently made up of intake from a German group of colleges on an articulation route and this partnership is in serious jeopardy.

We would advocate continued access for EU students to the SLC, possibly on a targeted scholarship basis, on the grounds that the wider positive impact on the economy brought by international students would far exceed the potential cost of such a scheme.

### How dependent are HE investment plans on EU funding and what are the alternatives?

There is an indirect but significant link between the perceived risks posed by Brexit to the sector and appetite from lenders to support capital investment. Downgrades of some of the elite universities by Moody has hit the headlines, but

it must be understood that there is an impact on all institutions which has not been publicised. For instance, loans and other financing arrangements are now being offered to universities across the 'league table' spectrum at less attractive rates (if at all), e.g. by a couple of percentage points.

Obviously, the concern is that there will be overcapacity in student accommodation or teaching space due to falling enrolments, and universities unable to service their capital debt.

## Research and Innovation Funding and Collaboration

To what extent do FE and HE institutions rely on future EU research and innovation funding?

Currently, we avail of significant EU funding streams for initiatives such as Go Wales, WEFO projects, the Youth Enterprise Scheme and the North Wales Business Academy (the latter two are joint FE-HE projects). Much of this work has a strong regional focus and is embedded with partners such as the Regional Skills Partnerships, PSBs, local authorities and schools, and of course industry partners. We would expect that similar funding will be available post- Brexit under the UK Shared Prosperity Fund, so that this valuable work can continue.

What might be done to safeguard EU research collaborations and networks?

Personal relationships will be important, such as between individual academics and institutional leaders. However, at the system level this must be backed up by funding. The best possible scenario, short of Brexit not proceeding, would be for the UK to opt into the future equivalents of Horizon 2020 and the FP programmes as a third country member.



Universities Wales represents the interests of universities in Wales and is a National Council of Universities UK (UUK). Universities Wales' Governing Council includes the Vice-Chancellors of all Welsh universities and the Director of the Open University in Wales.

Welsh Higher Education Brussels (WHEB) is funded by all Welsh universities and the Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW) to represent Welsh universities in Brussels and is based in Wales House in Brussels as part of the wider Welsh representation.

### Introduction

Welsh universities have been strengthened and enhanced by their participation in European programmes, through their access to European funding and through their extensive engagement with universities, businesses and other organisations across Europe. Welsh universities have been partners, collaborators and innovators in many areas across the sciences, technology, health, social sciences and humanities with transformational benefits for Wales, the rest of the UK and for Europe. Wales has benefited from the significant flows of talented people and funding into Wales due to the UK's membership of the European Union. To limit or inhibit the flows of people, ideas and innovation that currently flow naturally across borders will damage Welsh higher education's ability to deliver its activities, which will have an impact on all areas of Welsh life, due to the significant contribution made by universities' activities to the Welsh economy and society.

It is vital that there is a full understanding of the significant impact of Brexit on Welsh higher education and the impact on Wales as a consequence. Post-Brexit Welsh universities must be able to access appropriate financial support, in an appropriate regulatory context and in a supportive policy environment to maintain and advance their activities. Welsh universities hope that the new UK-EU relationship will have as one of its key dimensions the higher education and research relationship that has been so important over the last four decades. This relationship, encompassing research and innovation collaboration and mobility, is a critical element in the continued prosperity and development of Wales, the UK and the EU.

### Executive summary

The implications of a UK withdrawal from the EU are likely to impact upon all aspects of Welsh higher education activity. Concerns for Welsh universities posed by the UK exiting the European Union include:

Wales' higher education sector's reputation as a collaborator of choice in vital research is weakened, and access to key funding and collaboration mechanisms to support research excellence are lost, having knock-on implications for economic

growth and communities across Wales,

- Wales will lose existing academic talent from the EU, impacting upon the excellence of Wales' research base and the quality and diversity of teaching provision,
- Students in Wales will lose valuable opportunities to study abroad as part of their degree and Welsh universities will experience sudden, steep declines in EU student enrolments, which will have an economic and social impact on universities and communities,
- Welsh universities' activity to drive local and national growth, generate jobs and further prosperity will be hampered, especially if European Structural Funds are not replaced or replicated
- Opportunities to strengthen international trade and diplomatic relationships across Europe and the wider world through the international activities of universities will be significantly reduced or lost.

Such negative impacts on universities will have knock-on effects on all areas of Welsh life as Welsh universities are of such importance to Wales. The recent Universities Wales report on economic impact highlighted the critical role of universities in Wales and stated:

*'When compared to the rest of the UK, Welsh higher education is of greater relative importance to Wales, forming an even larger part of its economic base, than the UK higher education sector is to the UK overall.'*<sup>1</sup>

Our universities in Wales are internationally competitive and a major economic asset, that bring widespread benefits to individuals, communities, the nation as a whole and government in Wales. The total combined impact of Welsh universities and their students on Wales' GVA came to nearly £2.4 billion - equivalent to 4.6% of all Wales GVA in 2013. Welsh universities bring in a total of £413 million of export earnings<sup>4</sup> and income to Wales through knowledge exchange between universities and the public, private and third sectors was £201 million in 2013/14<sup>5</sup>.

Post-Brexit, Universities can play a central role in driving inclusive economic growth locally, regionally and nationally; improving productivity as part of a new industrial strategy; and strengthening our international trade and diplomatic relationships across Europe and the wider world.

Welsh universities are transformational organisations both for their students and graduates but also for their local economies and communities. These benefits are also national and international as Welsh universities work with partners across the UK, across Europe and around the world.

This transformational impact however is dependent on Welsh Government securing the best deal for universities Post-Brexit, in order to support them to continue delivering for Wales.

---

<sup>1</sup> The Economic Impact of Higher Education in Wales, Universities Wales, January 2018

## Learner Outcomes and Employability

Leaving the EU will have direct and indirect consequences for students and staff, both inside and outside the classroom. Issues around learner success and employability could include difficulties around the mutual recognition of qualifications and the comparability of qualifications. The UK system has benefited from extensive engagement and participation in a wide range of system reforms across Europe around quality assurance, mutual recognition of degrees and qualifications frameworks to improve the learner experience and employability. While much of this activity is undertaken at a broader European level the EU has played and will continue to play an important role in system development that could marginalise the UK.

The Professional Qualifications Directive provides a comprehensive EU system for the recognition of professional experience, enables labour market flexibility and promotes the automatic recognition of professional qualifications in EU and EEA countries. Leaving the Single Market could mean that the UK is no longer covered by the Directive which could reduce the value of UK degrees as EU students may be unsure about the transferability of their qualifications. In addition, UK residents may face difficulties if they wish to work in the EU or if they study in the EU and wish to use their qualifications in the UK. It will be important to ensure that the areas around mutual recognition, standards and comparability in qualifications are included within the arrangements for the future UK-EU relationship.

Students and staff from EU member states are likely to face additional administrative and financial requirements to study and work in the UK. These requirements and the wider perceptions around the UK are likely to deter a number from coming to the UK. EU staff play a critical role in supporting the excellence of Wales' research activities as well as the quality and diversity of teaching provision. EU staff form over 10% of the academic workforce at Welsh universities.<sup>2</sup> The excellence and global competitiveness of Wales' research base relies on attracting and retaining the most talented researchers to pursue ground-breaking projects at Welsh universities, regardless of where they come from. Inability to recruit and retain the best researchers has serious risk of damaging our internationally excellent research reputation and losing the beneficial impact Wales' research has on Wales. The outstanding results of Welsh universities in the Research Excellence Framework (REF 2014) were reliant on high performing research teams, many of which are strengthened, if not dependent on, international mobility

European students make a significant contribution to Wales – academically, culturally and economically. In 2014/15 there were 5,424 EU students studying at Welsh universities who generated £150.3m for the Welsh economy and supported over 1,400 FTE jobs across Wales.<sup>3</sup>

---

<sup>2</sup> Higher Education Statistics Agency [hesa.ac.uk](http://hesa.ac.uk)

<sup>3</sup> The Economic Impact of Higher Education in Wales, Universities Wales, January 2018

- Dangosodd yr arolygiadau ar y cyd wahaniaethau o ran gallu'r arolygiaethau i gynnal yr holl agweddau ar arolygiadau ar y cyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'n hanfodol fod yr holl arolygwyr sy'n cynnal arolygiadau ar y cyd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn gallu cyflawni'r holl agweddau ar arolygu ar y cyd yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau cydraddoldeb ledled yr holl leoliadau.

## 2. Canfyddiadau'r gwerthusiad

Datblygodd y tîm gwerthuso gyfres o gwestiynau ymchwil trosfwaol er mwyn cynnig ffocws ar gyfer y gwerthusiad. Roedd y cwestiynau hyn, y cytunwyd arnynt gyda thîm y cleient yn ystod y cyfarfod gwerthuso dechreuol, fel a ganlyn:

1. I ba raddau mae'r fframwaith arolygu ar y cyd a ddatblygwyd gan AGGCC ac Estyn yn cyflawni:
  - **Aliniad** effeithiol, gan weithredu fel nodwedd sy'n uno gwaith y ddau sefydliad
  - **Proses arolygu lyfnach** ar gyfer lleoliadau sy'n darparu gofal ac addysg ar gyfer plant rhwng tair a phedair oed
2. Yn seiliedig ar brofiadau'r timau arolygu a'r lleoliadau, pa mor effeithiol yw'r **fframwaith arolygu ar y cyd o ran cefnogi gwelliannau yn ansawdd y gofal a'r addysg** mewn lleoliadau nas cynhelir?
  - A yw'r fframwaith arolygu ar y cyd yn cael ei gymhwyso'n rheolaidd gan dimau arolygu Estyn ac AGGCC?
  - O ran rheolwyr lleoliadau a'r staff, a oedd y broses arolygu ar y cyd yn glir, yn ddealladwy, ac yn ddefnyddiol o ran cefnogi gwelliannau i'r ddarpariaeth?
3. Beth yw'r prif **pwytiau dysgu** a ddaeth i'r amlwg yn dilyn y cynllun peilot (gan gynnwys argymhellion ymarferol) sy'n gallu llywio gwaith parhaus i gefnogi trefniadau arolygu ar y cyd? Yn benodol, beth yw'r pwytiau dysgu mewn perthynas â:
  - Gwerth gweithio ar y cyd ar lefel sefydliadol
  - Integreiddio/cysylltu rheolaeth data a systemau eraill
  - Datblygiad proffesiynol a rhannu sgiliau rhwng sefydliadau
  - Ystyriaethau o ran adnoddau ac effeithlonrwydd

Mae'r adran hon wedi'i strwythuro o gwmpas y cwestiynau ac is-gwestiynau hyn. Rydym wedi crynhoi penawdau'r penodau fel a ganlyn: 'Cynllunio a datblygu'r fframwaith arolygu ar y cyd' (2.2); 'Cynnal yr arolygiadau ar y cyd yn ymarferol' (2.3); a 'Pwyntiau dysgu ar gyfer gweithgaredd ar y cyd yn y dyfodol' (2.4).

### 2.1 Asesiad cyffredinol yn erbyn y tri chwestiwn ymchwil

O ystyried yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad, rydym yn dod i'r casgliad fod y cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus, ac wedi cyflawni'r hyn yr oedd yn dymuno ei wneud, sef cynllunio a datblygu fframwaith arolygu ar y cyd a chynnal arolygiadau ar y cyd mewn amrywiaeth o leoliadau. Drwy wneud hyn, mae'r cynllun peilot wedi dangos y gall y cysyniad o weithio ar y cyd gael ei gyflawni'n ymarferol.

Fel y disgwylir, roedd nifer o bwyntiau dysgu a ddaeth i'r amlwg o'r cynllun peilot, ac rydym yn cyfeirio at y rhain yn yr adroddiad hwn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellir symud ymlaen â'r pwyntiau dysgu hyn mewn ffordd adeiladol, gan adeiladu ar y cydberthnasau a'r arferion a sefydlwyd yn ystod y cynllun peilot. Roedd y rhan fwyaf o'r profiadau yn ystod y cynllun peilot yn gadarnhaol – o safbwyntiau uwch-reolwyr, arolygwyr a lleoliadau – er nad oedd hyn yn wir ym mhob achos. Yn unol â hynny, mae gwaith yn parhau i ddatblygu systemau a strwythurau i wella gweithio ar y cyd.

## 2.2 Cynllunio a datblygu'r fframwaith arolygu ar y cyd

Mae'r adran hon yn cyflwyno negeseuon allweddol mewn perthynas â chynllunio a datblygu'r fframwaith arolygu ar y cyd.

### 2.2.1 Aliniad

- Roedd y fframwaith arolygu ar y cyd a ddatblygwyd yn addas i'r diben o ran galluogi arolygiadau wedi'u halinio mewn maes lle mae gan y ddau sefydliad gyfrifoldeb.
- Mae'r gwerthusiad wedi cael cefnogaeth ymhlith yr holl brif grwpiau cyfansoddol (uwch-reolwyr, arolygwyr a lleoliadau) o ran y cysyniad o arolygu ar y cyd.
- Derbyniwyd y datblygiad (a'r gwaith treialu dilynol) o'r fframwaith arolygu ar y cyd yn dda ac ystyriwyd ei fod yn gadarnhaol, bron yn unfrydol, gan uwch-reolwyr, arolygwyr a lleoliadau.

Roedd datblygiad y fframwaith arolygu ar y cyd yn llwyddiannus ac yn ymgorffori'r egwyddor bwysig o gydraddoldeb rhwng y ddau sefydliad. Roedd y fframwaith ar y cyd yn adeiladu ar flynyddoedd lawer o drafodaethau yn y gorffennol i alinio arolygiadau mewn meysydd y mae'n ofynnol i'r ddau sefydliad eu harolygu. Roedd y dull a ddefnyddiwyd gan yr uwch-reolwyr a'r uwch-arolygwyr yn ystod y cam hwn o'r cynllun peilot yn werthfawr o ran gosod y naws briodol ar gyfer gweithio ar y cyd. Er bod gwahaniaethau amlwg o ran y ffordd y mae'r arolygiaethau yn gweithredu, gwnaethant gydnabod bod nifer o bethau yn gyffredin i'r ddau ohonynt. Roedd hyn yn eu helpu i symud yn gymharol gyflym o drafodaethau pennu i ddechrau ar y broses o greu fframwaith ar y cyd.

Roedd y ddogfen fframwaith ar y cyd, sy'n rhannu themâu a meysydd allweddol yn gyfartal rhwng Estyn ac AGGCC, yn sicrhau bod gweithio ar y cyd yn rhan annatod o ysbryd ac arfer y cynllun peilot. Roedd dod i gytundeb o ran cynnwys y fframwaith yn broses gadarnhaol a ddenodd sylw'r ddau sefydliad yn effeithiol. Roedd yr uwch-reolwyr a'r uwch-arolygwyr o'i blaid o'r cychwyn cyntaf. Wrth gwrs, mae llwyddiant unrhyw fframwaith yn dibynnu ar y ffordd y mae'n cael ei weithredu, ac mae tystiolaeth yn dangos bod y fframwaith arolygu ar y cyd yn gweithredu fel dull effeithiol i arwain y broses arolygu'n ymarferol. Roedd arolygwr a lleoliadau yn cytuno bod y fframwaith yn cynnig seilwaith ar gyfer ysgogi gwelliannau o ran ansawdd y gofal a'r addysg mewn lleoliadau nas cynhelir.

- Er bod y fframwaith arolygu ar y cyd yn cefnogi aliniad gwell rhwng Estyn ac AGGCC drwy'r cynllunio strategol ar y cyd, roedd trefniadau llywodraethu ar wahân yn cael eu cadw drwy gydol y broses.
- Roedd alinio prosesau gweithredol y ddau sefydliad yn cyflwyno heriau, ond fe wnaeth hyn wella dros amser wrth i'r arolygiaethau ddysgu am arferion gweithio ei gilydd drwy'r broses.

Gwnaeth uwch-reolwyr gydweithio'n dda i oruchwylio'r gwaith strategol o gynllunio'r arolygiad peilot ar y cyd. Roedd y gwaith cyffredinol o lywodraethu gwaith pob arolygiaeth fel

rhan o'r gweithio ar y cyd yn cael ei gadw ar wahân. Daeth yr heriau sy'n gysylltiedig ag alinio ymarferion gweithio yn fwy amlwg wrth i'r broses gynllunio fynd rhagddi. Yn arbennig, roedd y ffordd yr oedd arolygwyr yn trefnu eu hamser cyn, yn ystod ac yn dilyn arolygiadau yn amrywio rhwng y ddwy arolygiaeth. Mae hyn yn ganlyniad i sylfeini cyfreithiol a statudol gwahanol y sefydliadau yn rhannol.

### 2.2.2 Proses arolygu lyfnach

- Roedd y lleoliadau peilot yn cydnabod bod arolygiadau ar y cyd yn cynnig y potensial i ddarparu proses arolygu lyfnach. Mae'r fframwaith arolygu ar y cyd yn annog arolygwyr a lleoliadau i ystyried elfennau gofal a dysgu'r ddarpariaeth mewn ffordd fwy cynhwysol ac unedig.

Roedd mwyafrif clir o'r lleoliadau yn gadarnhaol o ran y broses arolygu ar y cyd ac yn cydnabod manteision posibl model arolygu symlach at ofal a dysgu, er nad oedd pawb a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn arddel y safbwynt hwn. Roedd systemau Estyn yn gweithio'n dda iawn o ran paratoi lleoliadau ar gyfer y cynllun peilot, a dywedodd lleoliadau eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y ddwy arolygiaeth yn bresennol ar yr un pryd. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan leoliadau o ran y dull cyfannol, 'plentyn cyfan' a ymgorfforwyd gan y fframwaith arolygu ar y cyd, ac roeddent yn gwerthfawrogi gwaith Estyn ac AGGCC o ran ceisio sicrhau dull di-dor ar gyfer y broses arolygu. Gwnaeth mwyafrif clir o'r lleoliadau sylwadau cadarnhaol o ran y gwaith a wnaed gan y ddwy arolygiaeth wrth symud tuag at ddull newydd a rennir. Er hynny, roedd pwyntiau dysgu a ddaeth i'r amlwg o'r cynllun peilot (gweler adran 2.4 o'r papur hwn), ac nid oedd yr holl leoliadau yn ystyried bod y broses wedi bod yn llwyddiant digamsyniol.

- Roedd yr hyfforddiant a'r paratoi cyn yr arolygiad yn eang. Cyflwynodd gyfleoedd i'r arolygwyr ymglyfarwyddo â'r fframwaith arolygu ar y cyd a dysgu am arferion gweithio ei gilydd.
- Roedd rhai agweddau ar hyfforddiant cyn arolygu lle y byddai arweiniad manylach wedi bod yn fuddiol a gallai fod wedi helpu i gefnogi effeithiolrwydd gwell yn ystod yr arolygiad a'r prosesau adrodd yn dilyn hynny.

Roedd yr hyfforddiant ar gyfer arolygwyr yn eang ac yn effeithiol. Rhoddwyd sylw da i'r fframwaith arolygu ar y cyd yn ystod hyfforddiant, a rhoddwyd sylw agos at sut i ddefnyddio'r fframwaith yn ymarferol yn ystod ymweliadau arolygu. Fodd bynnag, dywedodd arolygwyr fod sylw llai manwl yn cael ei roi i adrodd a sicrhau ansawdd, a oedd yn effeithio ar ba mor llyfn yr oedd rhai agweddau o'r gwaith ar y cyd. Roedd rhai o arolygwyr AGGCC o'r farn nad oedd hyfforddiant yn cynnig digon o arweiniad mewn perthynas â'r adborth y byddai angen iddynt ei roi yn y lleoliadau ar ddiwedd yr arolygiad. Roedd problemau TG hefyd, a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod cyn arolygu ac sy'n effeithio ar pa mor llyfn oedd yr arolygiad peilot ar y cyd: roedd yn amlwg cyn yr ymweliadau arolygu y byddai arolygwyr AGGCC nad oeddent yn gallu defnyddio eu gliniaduron o bell yn wynebu anawsterau wrth gofnodi a rhannu gwybodaeth yn electronig, ac wrth gael mynediad at yr Ystafell Arolygu Rithwir all-lein.



## 2.3 Cynnal yr arolygiadau ar y cyd yn ymarferol

Mae'r adran hon yn cyflwyno negeseuon allweddol o ran cynnal arolygiadau peilot ar y cyd.

Myfyriodd arolygwyr o'r ddwy arolygiaeth yn gadarnhaol ar eu profiadau o fod yn rhan o arolygiadau ar y cyd. Ym mhob achos, roedd yr arolygwyr yn teimlo eu bod wedi llwyddo i feithrin partneriaethau gweithio proffesiynol o fewn cyfnod byr o amser. Croesawyd y cyfleoedd a gynigiwyd i'r arolygwyr trwy'r trefniadau gweithio ar y cyd, a gwnaethant gofio eu bod wedi dysgu llawer gan eu cymheiriaid yn ystod yr arolygiadau.

- Gan dynnu ar farn yr arolygwyr a'r lleoliadau, mae'r gwerthusiad wedi nodi potensial i'r model arolygu ar y cyd gefnogi gwelliannau yn ansawdd y gofal a'r addysg mewn lleoliadau nas cynhelir, ond mae'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ar hyn.

Gwnaethpwyd llawer o waith cadarnhaol yn ystod y cynlluniau peilot a symudodd y ddau sefydliad at y nod o gefnogi gwelliannau o ran ansawdd y gofal a'r addysg a ddarparwyd. Mewn nifer fach o achosion, awgrymodd lleoliadau nad oeddent yn glir o ran sut y gallent wella ar ôl derbyn rhai o'r dyfarniadau. Gwnaethant nodi nad oeddent yn gallu cael ateb cyson o ran yr hyn y gallai fod arnynt angen ei wneud i gyrraedd graddfeydd uwch o fewn y fframwaith, a fyddai, trwy estyniad, yn cynnig llwybr clir er mwyn gwella'r gofal plant a'r addysg a ddarperir yn eu lleoliad. Roedd hyn yn ymwneud i ryw raddau â'r cyfathrebu rhwng arolygwyr (gweler 2.3.1 isod), ond mae tystiolaeth yn awgrymu y byddai symud tuag at y dull cynhwysol plentyn cyfan yn cynnig y posibilrwydd o gyflawni'r nod hwn.

- Dechreuodd AGGCC ac Estyn ar y cynllun peilot arolygu ar y cyd o bwyntiau dechrau gwahanol fel sefydliadau. Roedd y cynlluniau arolygu ar y cyd yn cynnwys mwy o agweddau newydd i arolygwyr AGGCC o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Estyn, yn enwedig o ran y broses o ffurfio dyfarniadau ansawdd. Fodd bynnag, cyflawnwyd y cynllun peilot yn llwyddiannus, a llwyddodd y ddau sefydliad i wneud iddo weithio, er gwaethaf yr heriau hyn.

Roedd yr arolygiadau peilot ar y cyd yn cynnwys mwy o agweddau newydd i arolygwyr AGGCC o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Estyn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod arolygwyr AGGCC yn llai cyfarwydd o lawer â'r broses o ffurfio dyfarniadau ansawdd. Roedd arolygwyr Estyn wedi bod yn gwerthuso a graddio ansawdd y ddarpariaeth addysgol mewn lleoliadau nas cynhelir (a darpariaethau eraill) ers blynyddoedd lawer. Roedd y dull adrodd a'r broses sicrhau ansawdd a fabwysiadwyd ar gyfer yr arolygiadau ar y cyd hefyd yn cynrychioli ffordd wahanol o weithio ar gyfer AGGCC. Mae systemau Estyn ar gyfer sicrhau bod ei arolygwyr yn cwrdd â therfynau amser ar gyfer adrodd wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu rheoli'n agos. Mae'r systemau a'r prosesau sydd ar waith (gan gynnwys y systemau TG) yn hwyluso proses gyflym o gofnodi, gwerthuso ac adrodd tystiolaeth.

Oherwydd yr holl resymau cadarnhaol hyn, penderfynodd bwrdd y prosiect y byddai'r arolygiad peilot ar y cyd yn mabwysiadu llawer o systemau a phrosesau Estyn. Croesawodd arolygwyr AGGCC y cyfle i ddysgu o arferion gweithio sefydledig Estyn. Un canlyniad o'r dull a ddefnyddiwyd, fodd bynnag, oedd bod y ddau grŵp o arolygwyr yn wynebu gwahanol

'cromliniau dysgu' yn ystod y cynllun peilot gweithio ar y cyd, a gafodd ei gymhlethu gan y problemau TG a gafwyd gan arolygwyr AGGCC (gweler isod).

Oherwydd pwyntiau dechrau gwahanol y sefydliadau, dangosodd yr arolygwyr lefelau gwahanol o bendantrwydd wrth gyflawni eu gwaith yn ystod camau cynnar yr arolygiadau ar y cyd. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai o arolygwyr Estyn o'r farn fod y broses yn ddiffygiol o ran lefel yr herio neu'r manwl gywirdeb y byddent wedi'i disgwyl (nododd rhai ohonynt eu bod wedi arfer ag arolygwyr cymheiriaid yn cwestiynu ei gilydd er mwyn sicrhau bod y dyfarniadau a wneir ganddynt yn gadarn a synhwyrol). Dylid nodi bod hyn wedi newid dros amser, yn enwedig wrth i arolygwyr AGGCC ddod yn fwyfwy cyfarwydd â'r dull newydd, ac ar ôl iddynt ddod yn fwy hyderus wrth wneud dyfarniadau.

- Roedd y penderfyniad i fabwysiadu systemau Estyn ar gyfer yr arolygiad peilot ar y cyd yn ddewis cadarnhaol a oedd yn gweithio'n dda iawn ar y cyfan.
- Fodd bynnag, cyflwynodd systemau TG AGGCC heriau yn ystod yr arolygiad peilot ar y cyd. Gwnaeth problemau mewn perthynas â TG effeithio ar y gallu i brofi arferion gweithio ar y cyd yn llawn yn ystod y cynllun peilot. Mae angen datrys hyn cyn cynnal rhagor o waith peilot.

Fel y disgrifiwyd, penderfynwyd mai Ystafell Arolygu Rithwir Estyn fyddai'r dull y byddai arolygwyr yn y maes yn ei ddefnyddio er mwyn casglu eu tystiolaeth. Fodd bynnag, cafodd arolygwyr AGGCC nifer o broblemau wrth geisio cael mynediad at yr Ystafell Arolygu Rithwir a rwystrodd eu gallu i weithio'n effeithiol ochr yn ochr â'u cymheiriaid yn Estyn.


Daeth problemau TG i'r amlwg yn ystod y digwyddiadau hyfforddiant cychwynol. Roedd yn amlwg bod problemau â Mewnwyd Ddiogel y Llywodraeth yn golygu nad oedd arolygwyr AGGCC yn gallu cofnodi tystiolaeth yn electronig heb gysylltu â'r rhyngwyd. Er gwaethaf sawl cais gan uwch-reolwyr o fewn AGGCC, achosodd y methiant i ddatrys y problemau TG cyn yr ymweliadau arolygu anawsterau sylweddol i arolygwyr AGGCC, a arweiniodd at bwysau amser a llwyth gwaith ychwanegol.

Roedd arolygwyr AGGCC, felly, yn gweithio o dan amodau gwahanol i'w cymheiriaid yn Estyn. Dywedodd holl arolygwyr y ddau sefydliad fod hyn wedi rhwystro'r broses arolygu yn sylweddol. Roedd y datrysiadau i'r problemau y daeth timau arolygu o hyd iddynt yn llwyddo i raddau amrywiol. Roedd rhai o'r timau yn gwneud yn iawn am y methiant i gofnodi a chasglu tystiolaeth yn electronig drwy dreulio amser ychwanegol yn trafod eu canfyddiadau wyneb yn wyneb er mwyn gwneud dyfarniadau ar y cyd. Daeth nifer fach o arolygwyr AGGCC o hyd i ffyrdd o 'weithio o gwmpas' y problemau TG, a oedd yn golygu yr oeddent dal yn gallu ychwanegu gwybodaeth yn electronig. Roedd y problemau TG yn rhwystredig ar gyfer y ddau bartner, a gwnaethant wneud i arolygwyr gwestiynu a yw'r sefydliadau yn gallu cynnal arolygiad ar y cyd sydd wedi'i alinio mewn ffordd wirioneddol heb aliniad cyfatebol ar eu systemau TG.

- Dangosodd y cynllun peilot fod y model yn gallu gweithio'n ymarferol: roedd y fframwaith arolygu ar y cyd yn addas i'r diben fel offeryn i alluogi'r ddwy arolygiaeth i gydweithredu'n effeithiol. Nid yw hyn yn golygu nad oes lle i wella, ond mae'n cydnabod bod y cynllun peilot yn llwyddiannus yn gyffredinol.

- Ar ei orau, sicrhaodd yr arolygiad peilot ar y cyd arolygiadau a oedd wedi'u halinio ac yn llyfnu mewn gwirionedd ym marn yr arolygwyr a'r lleoliadau. O ran lleiafrif o'r arolygiadau ar y cyd a gwblhawyd yn ystod y cynllun peilot, gwelwyd prosesau cydamserol ond ar wahân.

Roedd safbwyntiau lleoliadau yn wahanol o ran yr arolygiadau peilot ar y cyd, yn dibynnu ar raddau'r aliniad a arsylwyd ganddynt rhwng yr arolygwyr. Roedd y rhain yn amrywio o'r rhai a oedd yn teimlo'n gadarnhaol iawn fod gwaith yr arolygwyr yn integredig, i leoliadau eraill a gafodd yr argraff lawer mwy negyddol fod dau arolygiad gwahanol yn cael eu cynnal ar yr un pryd, gan gynyddu eu llwyth gwaith heb unrhyw fanteision i gyd-fynd â hynny. Yn seiliedig ar adborth y darparwyr a'r arolygwyr, mae'r dystiolaeth yn amlygu'r ffaith y gall cynnydd tuag at gynnal arolygiadau ar y cyd sy'n effeithiol ac wedi'u halinio'n llawn gael ei ystyried ar hyd continwwm. Gellir dadlau bod pedwar cam ar y continwwm hwn, sy'n amrywio o'r model arolygu blaenorol (ar wahân) hyd at y model o gydweithio y mae AGGCC ac Estyn yn anelu ato, fel y dangosir isod.



Ar hyn o bryd, mae lleoliad y ddau sefydliad ar y continwwm yn ddadleuol, ond gellir dosbarthu llawer o'r arferion a welwyd yn ystod y cynllun peilot yn y trydydd categori, a ddisgrifir uchod. Roedd yn bosibl, wrth gwrs, i'r sefydliadau gyrraedd cam pedwar yn y continwwm, ond dylid nodi bod cyrraedd mor bell â cham tri yn arwydd o gyflawniad sylweddol – symud o sefyllfa sefydliadau annibynnol sydd â grŵp cyffredin o leoliadau i'w harolygu, i un sy'n ymgorffori'r egwyddor bwysig o aliniad. Nododd yr holl leoliadau, arolygwyr a rheolwyr fod angen gwneud mwy (gweler 'Pwyntiau dysgu' yn adran 2.4 a 'Meysydd i'w hystyried ymhellach' yn adran 3), ond bod llawer o gynnydd wedi digwydd.

## 2.4 Pwyntiau dysgu ar gyfer gweithgaredd ar y cyd yn y dyfodol

Mae'r adran hon yn amlygu rhai o'r pwyntiau dysgu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r cynllun peilot, yn gysylltiedig yn arbennig â chyfathrebu, prosesau adrodd, a chynnwys cymysgedd eang o leoliadau mewn unrhyw waith peilot yn y dyfodol.

### 2.4.1 Cyfathrebu

- Roedd cyfathrebu rhwng y timau arolygu cyn, yn ystod ac ar ôl yr arolygiad yn hanfodol. Mae tystiolaeth o'r cynlluniau peilot yn awgrymu bod cyfathrebu effeithiol wedi cael effaith sylweddol ar pa mor dda y mae arolygiadau yn cael eu cynnal a'u derbyn, yn enwedig wrth i leoliadau ddod i arfer â'r dulliau newydd hyn.

Yn ystod yr hyfforddiant, awgrymwyd i'r arolygwyr y dylent neilltuo amser yn eu harolygiadau ar y cyd ar gyfer trafodaethau tîm rheolaidd. Awgrymodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod gwerthuso fod trafodaethau o'r fath, ac ansawdd y cyfathrebu yn fwy cyffredinol, yn ffactor sylweddol o ran pa mor dda roedd yr arolygiadau ar y cyd yn cael eu cynnal a'u derbyn, ond bod y ffordd y digwyddodd y rhain yn amrywio o ran hyd ac amllder.

Pan oedd cyfathrebu'n llai effeithiol, naill ai cyn a/neu yn ystod yr arolygiadau, dywedodd yr arolygwyr fod heriau mwy sylweddol o ran gwneud dyfarniadau a phenderfyniadau effeithiol mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r addysg a ddarperir. Os oedd ond ychydig o drafod wedi bod cyn yr ymweliad maes, byddai rhywfaint o ddryswch o ran sut y byddai pob arolygydd yn gweithredu, pa ddata a thystiolaeth y byddent yn eu casglu, a sut y dylid llenwi'r fframwaith. Gwaethygydd yr heriau hyn naill ai mewn lleoliadau mwy a/neu'r rheiny â chynlluniau mwy cymhleth – er enghraifft, pan oedd plant wedi'u lleoli mewn gwahanol adeiladau ar un safle, neu pan yr oeddent mewn nifer o ystafelloedd gwahanol. Roedd y diffyg eglurder hwn (pan oedd yn digwydd) yn amlwg hefyd i leoliadau.

Roedd yr arweiniad a roddwyd i'r arolygwyr yn dweud y dylent gwrdd a thrafod eu canfyddiadau ar brynhawn y diwrnod cyntaf. Fodd bynnag, daeth heriau cyfathrebu i'r amlwg pan nad oeddent yn gallu sicrhau digon o amser i drafod canlyniadau'r diwrnod cyntaf cyn dychwelyd i'r lleoliad ar fore'r ail ddiwrnod. (Pan nad oedd hyn yn digwydd, roedd yn effeithio ar allu'r arolygwyr i ddeall eu sefyllfaoedd mewn perthynas â themâu a meysydd allweddol y fframwaith cyn yr ail ddiwrnod. Mewn nifer o achosion, gwnaeth y problemau a wynebwyd gan arolygwyr AGGCC gyda'r systemau TG waethygu gallu'r timau i gwrdd a thrafod eu canfyddiadau.)

Ar y llaw arall, dangosodd enghreifftiau eraill yn ystod y cynllun peilot fod cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau arolygwr yn arwain at gydberthynas waith lawer agosach a mwy effeithiol. Yn wir, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai dyma yw'r meini prawf llwyddiant allweddol a oedd yn rhagweld p'un a oedd lleoliadau (a'r arolygwyr eu hunain) yn hyderus fod y dyfarniadau a wnaed wedi cael eu gwneud yn wirioneddol ar y cyd, ac a oeddent yn adlewyrchiad cywir o'r dystiolaeth ar y cyd a oedd wedi cael ei chasglu.

- Roedd cyfathrebu da rhwng yr arolygwyr yn helpu i gefnogi dealltwriaeth gyfunol o'r dyfarniadau a wnaed.

Mae'r mater o gyfathrebu hefyd yn bwysig o ran eglurder ynghylch *sut* yr oedd dyfarniadau yn cael eu gwneud. Cafodd y disgrifiadau a ysgrifennwyd ar gyfer dyfarniadau 'da' gan y tîm prosiect ar draws y fframwaith eu croesawu gan bawb. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r timau arolygu ddefnyddio eu barn broffesiynol i allosod eu canfyddiadau i weddu'r categorïau

graddio eraill. Arweiniodd cyfathrebu da rhwng y timau arolygu at ddealltwriaeth gadarnhaol a chyfrannol o'r categorïau eraill, a ddisgrifiwyd yn glir i'r lleoliadau.

Mae hyn yn arbennig o bwysig ar yr adegau lle y nodwyd rhai methiannau, yn enwedig o ran sut i wneud penderfyniadau ar y cyd pan oedd anghytuno ar y dechrau. Gallai'r anghytundeb fod wedi bod rhwng arolygwyr neu arolygwyr a lleoliadau hyd yn oed. Cafodd y rhain eu datrys yn effeithiol rhwng rhai parau o arolygwyr, ond nid oedd hyn mor wir i rai eraill, a nodwyd bod gwell cysondeb yn welliant pwysig.

#### 2.4.2 Y prosesau adrodd

- Roedd y prosesau adrodd, golygu a sicrhau ansawdd ynghlwm yn estynedig yn wreiddiol, a daeth i'r amlwg fod anghysondebau o ran dulliau rhwng y ddau sefydliad.
- Er gwaethaf rhai gwelliannau wrth i'r cynllun peilot fynd rhagddo, mae angen gwneud gwaith o hyd yn y maes hwn.

Fel y nodwyd uchod, daeth rhywfaint o wahaniaethau o ran arferion gwaith i'r amlwg, ac aethpwyd i'r afael â nhw drwy gydweithio. Roedd hyn yn gynnydd cadarnhaol i ryw raddau, ond mae tystiolaeth yn dangos nad oedd y broses adrodd, golygu a sicrhau ansawdd mor effeithiol yn gyffredinol ag y gallai fod. Yn benodol, roedd tystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos bod dal angen cyrraedd cytundeb clir ynghylch arddull adroddiadau a sut i sicrhau bod y swm priodol o dystiolaeth ategol yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau arolygu ar y cyd, a bod y ddwy arolygiaeth yn cytuno ar hyn.

O edrych yn ôl, ni roddwyd digon o sylw i'r materion hyn yn ystod yr hyfforddiant i arolygwyr. Roedd hyn yn golygu bod diffyg eglurder ynglŷn â sut yn union y byddai'r broses adrodd yn cael ei gwneud yn benodol. Wedi dweud hynny, gwnaeth arolygwyr weithio'n dda i ddysgu 'ar y swydd' a chael gafael ar ddulliau oddi wrth ei gilydd ynghylch sut y gellir cyflwyno tystiolaeth.

Roedd prosesau sicrhau ansawdd hefyd yn peri heriau i arolygwyr a chydweithwyr ar draws y ddwy arolygiaeth. Daeth yn broses hir iawn a dwys o ran adnoddau, nad oedd mewn gwirionedd yn gweithio i fodloni'r naill sefydliad neu'r llall.

Er bod y sefydliadau yn fodlon eu bod wedi cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol a chynnig dyfarniadau safonol, codwyd nifer o bryderon gan leoliadau nad oedd cysylltiad rhwng negeseuon a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adborth a'r adroddiadau terfynol. Gwnaethant dynnu sylw at y problemau (fel yr oeddent yn eu gweld) gyda'r dulliau sicrhau ansawdd, ac awgrymu bod angen gwneud gwaith er mwyn blaenoriaethu hyn yn ystod y cam nesaf o gydweithio. Gellir esbonio hyn yn rhannol oherwydd y gwahaniaeth sydd rhwng y sefydliadau ynghylch eu dealltwriaeth o sicrwydd ansawdd, ond mae'n debygol y bydd yn gwella wrth i arolygwyr symud i'r un cyfeiriad dros amser.

#### 2.4.3 Profi'r model mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau

- Roedd y cynllun peilot yn profi cydweithio mewn lleoliadau a oedd wedi cynnig eu hunain a gwneud dewis rhagweithiol i gymryd rhan yn y cynllun peilot.

- Dylai ail gam o'r cynllun peilot gynnwys amrediad ehangach o leoliadau er mwyn profi cydweithio mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau.

Roedd lleoliadau peilot wedi gwneud cais i fod yn rhan o'r arolygiadau ar y cyd, ac roeddent yn gefnogol ac yn frwdfrydig am y datblygiad trwy ddiffiniad. Gwnaethant roi disgrifiadau amrywiol o eisiau bod ar flaen y gad o ran arfer newydd, ac roeddent yn gweld yr arolygiad peilot ar y cyd fel ffordd o yrru gwelliannau pellach yn eu darpariaeth. Roeddent wedi mynegi eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r cynlluniau peilot oherwydd eu bod o'r farn ei fod yn fodel blaengar ac arloesol, ac, fel 'mabwysiadwyr cynnar', roeddent yn awyddus i wybod yr hyn a oedd i ddod o'r cynllun peilot hwn.

Cydweithiwyd felly'n llwyddiannus ar raddfa fach, ac o dan amodau a oedd dan 'reolaeth' gymharol. Nid yw hyn yn feirniadaeth o'r dull, ac ni ddylid ystyried ei fod yn lleihau'r ffaith fod heriau ynghlwm â chyflawni'r cynllun peilot fel y disgrifir uchod. Fodd bynnag, oherwydd nad oedd yr arolygiad peilot ar y cyd yn ymdrin â lleoliadau a oedd yn debygol nad oeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau neu fod angen gwneud gwelliannau sylweddol iddynt, nid yw'r dull ar y cyd wedi'i brofi'n llawn o ran straen. Dadleuir y dylai unrhyw leoliadau a ddewisir ar gyfer treialu'r model yn y dyfodol gynnwys trawstoriad ehangach, gan gynnwys darparwyr sydd wedi cael graddau is yn y gorffennol. Byddai hyn yn galluogi i'r strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd ar y cyd gael eu profi, fel y gellir penderfynu p'un a fyddant yn medru ymdopi â'r math o graffu a fyddai'n arwain at herio dyfarniadau'n ffurfiol - mewn achosion llys o bosibl.

Gwnaeth y gwerthuswyr hefyd dderbyn sylwadau gan yr arolygwyr ynghylch y manteision a wireddwyd yn AGGCC ar ôl iddi symud i fframwaith canlyniadau ar draws ei holl waith ym maes gofal plant. Mae hyn wedi golygu bod mwy o staff AGGCC bellach yn cymryd rhan yn y gwaith o greu graddau a dyfarniadau.

#### 2.4.4 Arolygiadau ar y cyd trwy gyfrwng y Gymraeg

- Gwnaeth yr arolygiadau peilot ddatgelu gwahaniaethau o ran capasiti'r arolygiaethau i gynnal pob agwedd ar arolygiadau ar y cyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'n hanfodol fod modd i bob arolygydd sy'n cynnal arolygiadau ar y cyd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg gyflawni pob agwedd ar yr arolygiadau ar y cyd yn hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg – gan sicrhau cydraddoldeb ar draws pob lleoliad.

Yn ystod y cynllun peilot, gwnaeth Estyn sicrhau bod pob un o'i arolygwyr a oedd wedi'i neilltuo i gynnal arolygiadau mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn gallu ymgysylltu â staff, casglu tystiolaeth ac adrodd trwy gyfrwng y Gymraeg. Esboniodd uwch-reolwyr ac arolygwyr a gafodd eu cyfweld fod hyn yn arfer arferol i Estyn. Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y gwerthusiad, roedd arolygwyr AGGCC a oedd yn cael eu dewis ar gyfer arolygiadau ar y cyd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn brin o hyder yn eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cwblhau pob tasg (gan gynnwys casglu tystiolaeth ac adrodd) trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, roedd pob proses adrodd a sicrhau ansawdd yn cael ei rheoli trwy gyfrwng y Saesneg fel rhan o'r arolygiad peilot ar y cyd - gan gynnwys er mwyn arolygu lleoliadau

cyfrwng Cymraeg. Nododd rhai uwch-reolwyr y gallai fod angen hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau bod arolygwyr o AGGCC wedi'u harfogi i gyflawni pob agwedd ar yr arolygiad ar y cyd yn hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg.

### 3. Meysydd i'w hystyried ymhellach

Mae'r adran derfynol hon yn casglu'r dystiolaeth werthuso ynghyd ac yn ein harwain at y 'meysydd i'w hystyried ymhellach' sy'n deillio o'r data a ddarparwyd yn ystod yr astudiaeth. Maent wedi'u gosod mewn cyd-destun gyda sylwadau cryno ynghylch natur yr hyn sydd angen ei ystyried. Fodd bynnag, nid ydynt wedi'u cyflwyno mewn unrhyw drefn o ran blaenoriaeth, ond maen nhw'n adlewyrchu'r farn gyffredinol ynglŷn â'r angen i wella'r meysydd hyn. Awgrymir, fel egwyddor tra phwysig, fod Estyn ac AGGCC, beth bynnag a fydd yn digwydd, yn sylweddoli ar faint o wybodaeth arbenigol sydd ymysg profiadau'r bobl sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot, ac nad ydynt yn colli ar y cyfle i ddefnyddio'r adnodd hwnnw.

Yn seiliedig ar y casgliadau eang a gyflwynwyd uchod, rydym wedi nodi chwe maes blaenoriaeth ar gyfer cam nesaf y cynllun peilot. Rydym yn hyderus y bydd y meysydd â blaenoriaeth hyn sydd i'w hystyried ymhellach yn helpu'r sefydliadau i symud yn effeithiol o'r cynllun peilot hwn i'r gwaith o lunio gweithgarwch arolygu ar y cyd. Wrth ystyried y tîm gwerthuso, bydd ystyried y materion hyn ymhellach yn helpu i gryfhau'r cydweithio, neu egluro trefniadau gweithio. Caiff y blaenoriaethau eu rhestru fan hyn, a roddir manylion am bob un ohonynt yn y tabl sy'n dilyn:

- 1. Adolygu'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer cydweithio, gan edrych i annog mwy o alinio strategol**
- 2. Darparu gwell cysondeb o ran arferion gwaith, yn rhannol trwy ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**
- 3. Sicrhau perthynas gyfatebol rhwng y Fframwaith Arolygu ar y Cyd a fframweithiau eraill AGGCC ac Estyn ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal**
- 4. Buddsoddi mewn ymrwymiad parhaus i hyfforddi a datblygu arolygwyr ar y cyd, ac adolygu'r deunyddiau a'r adnoddau ar gyfer camau dilynol o hyfforddiant**
- 5. Darparu cyswllt cliriach rhwng y dyfarniadau a gyrhaeddwyd a sut y gallai lleoliadau wella eu darpariaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell o ran gofal ac addysg i blant**
- 6. Gweithio er mwyn cynnal cysondeb o ran dull ar draws pob math o leoliad, gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i'r prosesau sicrhau ansawdd (gan gynnwys, drwy estyniad, ysgrifennu adroddiadau)**

---

Fel pwynt ychwanegol i'w ystyried, rydym yn teimlo y byddai'n fuddiol pe bai'r ddwy set o arolygwyr yn cymryd rhan mewn sesiwn adrodd yn ôl ar y cynllun peilot – wedi'i hysgogi o bosibl gan y canfyddiadau a gasglwyd yn y gwerthusiad.



Maes i'w ystyried ymhellach	Sylwadau i gefnogi'r casgliad a gyrhaeddwyd
<p>1</p> <p><b>Adolygu'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer cydweithio, gan edrych i annog mwy o alinio strategol</b></p>	<p>Mae'n ymddangos bod tair her wahanol o ran llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y cam nesaf o waith yn dilyn y cynllun peilot:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae yna sylfeini strategol a deddfwriaethol gwahanol iawn ar gyfer y ddwy arolygiaeth. Mae'r cynllun peilot wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth o rolau ei gilydd, ond mae dal angen gwneud rhywfaint o waith er mwyn sicrhau bod modd cyflawni diben craidd y ddau, ac nad yw hyn yn cael ei golli wrth gydweithio. Mae angen ymarfer a chysoni'r gwahaniaethau hyn o ran rôl y rheoleiddiwr (sy'n ymwneud â'r gwaith o orfodi safonau) a'r arolygydd (sy'n ymwneud â gwella) cyn i'r cynllun peilot fynd ymhellach. Mae angen cyfundrefnu dulliau llywodraethu ac atebolrwydd er mwyn sicrhau bod trefniadau'n gadarn, a bod modd profi'n effeithiol y prosesau casglu tystiolaeth os yw casgliadau neu ddyfarniadau'n cael eu herio yn y llys.</li> <li>2. Ar lefel gweithio'r prosiect, mae cydweithwyr o Estyn ac AGGCC wedi gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid oedd aelodaeth grŵp gwaith y prosiect yn gymesur, a phenderfynodd mwy o gydweithwyr uwch yn Estyn gyflenwi nag yn AGGCC. Un o ganlyniadau anfwriadol hyn oedd oedi diangen a dryswch pan ddaeth i'r cyfnod lle roedd angen gwneud penderfyniadau allweddol. Ar ben hynny, o ystyried rôl hanfodol uwch-arolygwyr yn y broses hon, efallai y byddai'n fuddiol pe bai uwch-arolygwyr AGGCC yn cymryd rhan yn arolygiadau cam nesaf y gwaith hwn. Yn gyffredinol, dylid adolygu trefniadau gweithredol a rheoli'r prosiect, gan gynnwys y seilwaith mewnlol ynghylch sut y dylid llywodraethu'r cam nesaf, er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben.</li> <li>3. Mae angen profi'r trefniadau arolygu ar y cyd sydd wedi'u datblygu yn rhan o'r cynllun peilot mewn amgylchiadau mwy heriol yn y maes er mwyn sicrhau bod y cysyniad yn gadarn ym mhob achos. Efallai y bydd angen cynnal adolygiad ynghylch y lefel o fedrusrwydd sydd ei hangen i lywodraethu'r broses arolygu, er mwyn bodloni'r mater a godwyd yn y pwynt cyntaf uchod - yn enwedig o ystyried y craffu cyfreithiol y gallai'r dyfarniadau hyn gael eu hamlygu iddo. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ystyried a ddylid datblygu tîm cyfun o arolygwyr sy'n dod yn arbenigwyr o ran ymgymryd â gwaith ar y cyd.</li> </ol> <p>Mae'n bosibl fod y trefniadau sydd eu hangen ar waith yn barod, ond nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth wedi'i chfundrefnu eu bod nhw. Mae angen mynd i'r afael â hyn os ydynt yn cael eu 'deall' ond nad ydynt yn cael eu cofnodi.</p>
<p>2</p> <p><b>Darparu gwell cysondeb o ran arferion gwaith, yn rhannol trwy ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth</b></p>	<p>Daeth gwahaniaethau i'r amlwg o'r cynllun peilot ynghylch <i>diwylliannau</i> gweithio rhwng Estyn ac AGGCC mewn nifer o ffyrdd cadarnhaol. Mae angen parhau i barchu a gwerthfawrogi rôl pob arolygiaeth wrth i'r gwaith ddatblygu. Mae llawer i'w ennill o barhau i ddysgu oddi wrth ei gilydd.</p> <p>Daeth gwahaniaethau hefyd i'r amlwg o'r cynllun peilot ynghylch <i>arferion</i> gwaith rhwng Estyn ac AGGCC, o ran cofnodi tystiolaeth ac adrodd. Er eu bod wedi trafod y cynllun ac adnoddau wrth gychwyn y cynllun peilot, roedd disgwyliadau gwahanol hefyd mewn perthynas â chwrdd â dyddiadau cyflwyno adroddiadau, pryd byddai gwaith yn cael ei gynnal, pryd dylai drafftiau fod yn barod, a sut y byddai'r arolygwyr yn gweithio fel tîm yn gyffredinol. Ar y cyfan, roedd adnoddau'r sefydliadau a'r dull tuag at gynnal y cynlluniau peilot yn wahanol iawn. Yn unol â hynny, roedd arolygwyr yn gweithio gwahanol fathau o ddiwrnod. Ar adegau, roedd hyn yn tarfu ar y cyfathrebu effeithiol rhwng y timau ac yn rhwystro ar y ffordd roedd yr arolygiad peilot ar y cyd yn cael ei gynnal.</p>

Maes i'w ystyried ymhellach	Sylwadau i gefnogi'r casgliad a gyrhaeddwyd
	<p>Awgrymir bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddatblygu rhwng y sefydliadau, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hyn drwy nodi'n glir y ffordd y byddai'r arolygwyr yn gweithio ac i ba ddyddiadau cau o fewn adnoddau y cytunwyd arnynt. Byddai cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a oedd yn wirioneddol ystyrion o'r ffordd y mae'r sefydliadau'n gweithredu, ac a fyddai'n dod o hyd i gyfaddawd effeithiol rhwng y patrymau gweithio gwahanol iawn er mwyn darganfod ffordd newydd a gwirioneddol o weithio a rennir yn mynd cryn bellter i ddatrys y rhan fwyaf o broblemau gweithredol a welwyd yn ystod y cynllun peilot (er gwaethaf anawsterau AGGCC â Mewnwyd Ddiogel y Llywodraeth fel y disgrifir uchod, y mae angen talu sylw ar wahân iddynt).</p>
<p>3</p> <p><b>Sicrhau perthynas gyfatebol rhwng y Fframwaith Arolygu ar y Cyd a fframwaith arolygu newydd AGGCC ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal</b></p>	<p>Mae AGGCC bellach wedi symud i fframwaith arolygu sy'n seiliedig ar raddau ar draws pob lleoliad gofal plant. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, gan fod arolygwyr AGGCC bellach mewn sefyllfa well i ddeall y broses, a phwysigrwydd cysondeb o ran rhoi graddau/dyfarniadau ar raddfa fawr ar draws nifer o lleoliadau.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod y fframwaith arolygu ar y cyd yn cyd-fynd â fframweithiau eraill AGGCC ac Estyn ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal – neu, fel arall, bydd yn drysu arolygwyr a lleoliadau.</p> <p>Byddai'r aliniad pellach hwn yn galluogi lleoliadau i gymharu eu dyfarniadau dros amser pan fydd arolygiadau dilynol yn cael eu cwblhau, waeth a gwblhawyd yr ymweliad ar y cyd gan AGGCC ac Estyn (h.y. unwaith bob chwe blynedd) neu p'un a gafodd ei gwblhau unwaith neu ddwywaith gan AGGCC yn unigol yn ystod y cyfnod cyfamserol (yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r lleoliad).</p>
<p>4</p> <p><b>Buddsoddi mewn ymrwymiad parhaus i hyfforddi a datblygu arolygwyr ar y cyd, ac adolygu'r deunyddiau a'r adnoddau ar gyfer camau dilynol o hyfforddiant</b></p>	<p>Roedd y cynllun peilot yn cynnwys mwy o newid mewn arferion gwaith ar gyfer arolygwyr AGGCC. Roedd angen i arolygwyr Estyn ddysgu sut i weithio ochr yn ochr â sefydliad arall, ond roedd angen i arolygwyr AGGCC wneud hyn yn ogystal â dysgu dull cwbl newydd tuag at arolygu. O ganlyniad, roedd angen i'w harolygwyr ymgymryd ac ymgylfarwyddo â mwy o bethau yn ystod yr hyfforddiant ac ar gamau eraill o'r cynllun peilot. Yn benodol, roedd y broses o lunio dyfarniadau yn brofiad gymharol newydd i arolygwyr AGGCC.</p> <p>Roedd yr hyfforddiant ar gyfer arolygwyr yn gynhwysfawr. Er bod cryn amser wedi'i roi i'r meysydd hyn, mae angen rhoi mwy o sylw ar ganolbwyntio ar agweddau penodol o'r broses arolygu ar y cyd, yn enwedig: sut i gasglu tystiolaeth ar y cyd o dan themâu amrywiol, penderfynu ar ddyfarniadau ar y cyd, pwysigrwydd herio a synfyfrio'n feirniadol yn ystod yr arolygiad, arddulliau adrodd, a sicrhau ansawdd.</p> <p>Mae dau ddiwylliant gwahanol iawn yn dod ynghyd yn y fframwaith arolygu ar y cyd hwn. Un o ganlyniadau'r diwylliant gwahanol hwn yw bod arolygwyr Estyn yn teimlo'n hyderus o ran beirniadu a herio'r dystiolaeth a gesglir gan gydweithwyr AGGCC er mwyn helpu i wneud y canfyddiadau'n fwy cadarn, ond nid oeddent yn teimlo bod cydweithwyr AGGCC yn eu herio yn yr un ffordd.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd y broblem hon yn datrys ei hun dros amser, ond gellid bod angen meddwl amdano'n ofalus mewn gwaith ar y cyd sy'n dilyn. Wrth symud ymlaen, mae angen sicrhau bod prosesau herio mewnol a synfyfrio'n feirniadol yn cael eu cynnwys yn y model o gydweithio. Gellid rhoi mwy o ystyriaeth i hyn yn ystod gweithgarwch hyfforddi.</p> <p>Yn olaf, dylid cydnabod na fydd gan unrhyw grŵp arall o arolygwyr sy'n gweithio ar</p>

Maes i'w ystyried ymhellach	Sylwadau i gefnogi'r casgliad a gyrhaeddwyd
	<p>yr arolygiadau ar y cyd o fewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal yr un faint o amser rhagarweiniol y mae'r grŵp hwn wedi elwa ohono. Dylid ystyried hyn fel mantais, oherwydd dylid gwerthfawrogi gwybodaeth y grŵp a'i defnyddio'n gadarnhaol yn yr ymrwymiad parhaus i'r gwaith ar y cyd o hyfforddi a datblygu arolygwyr.</p>
<p>5</p> <p><b>Darparu cyswllt cliriach rhwng y dyfarniadau a gyrhaeddwyd a sut y gallai lleoliadau wella eu darpariaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell o ran gofal ac addysg i blant</b></p>	<p>Er bod y gwaith o ddatblygu enghraifft / meini prawf sy'n disgrifio 'da' yn cael ei ystyried fel cam cyntaf cadarnhaol, nid oes unrhyw feini prawf cyfatebol yn disgrifio'r lefelau graddio eraill ar gyfer y fframwaith arolygu ar y cyd. Mae rhai lleoliadau wedi cwyno ynglŷn â hyn, oherwydd nad yw'n eu galluogi i weld sut mae angen iddynt ddatblygu a gwella.</p> <p>Er bod meini prawf ar gyfer 'da' yn bodoli, ceir cwestiynau ynglŷn â'u rhoi ar waith. Ceir tystiolaeth i ddangos nad oedd y fframwaith yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob lleoliad yn y cynllun peilot, gydag amrywiadau o ran y dystiolaeth a gasglwyd ac adroddwyd. Roedd nifer o arolygwyr yn teimlo y gallai paragraffau enghreifftiol ychwanegol yn disgrifio 'ardderchog' a 'digonol' helpu i sicrhau cysondeb wrth benderfynu ar ddyfarniadau. Roedd hyn yn arbennig o wir am arolygwyr llai profiadol wrth lunio dyfarniadau ansawdd. Mae'n bwysig nodi yr aethpwyd i'r afael â'r amrywiadau hyn drwy'r prosesau cymedroli a sicrhau ansawdd. Wedi dweud hynny, mae angen gwneud gwelliannau o hyd i'r broses sicrhau ansawdd (gweler pwynt 6 isod).</p> <p>Mae sicrhau bod lleoliadau'n glir ynglŷn â'r ffordd y gallant wella eu darpariaeth yn hanfodol wrth ddatblygu'r gwaith ar y cyd. Dywedodd rhai lleoliadau eu bod yn ansicr ynghylch sut y gallent wella eu gradd yn seiliedig ar ganlyniadau eu harolygiad ar y cyd – e.e. o 'da' i 'ardderchog', neu o 'digonol' i 'da'. Mae hyn yn pwysleisio bod angen eglurdeb o ran yr argymhellion a roddir, a bod angen canolbwyntio'n fwy ar sut i sicrhau canlyniadau gwell o ran gofal ac addysg i blant.</p>
<p>6</p> <p><b>Gweithio er mwyn cynnal cysondeb o ran dull ar draws pob math o leoliad, gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i'r prosesau sicrhau ansawdd (gan gynnwys, drwy estyniad, ysgrifennu adroddiadau)</b></p>	<p>Dywedodd lleoliadau eu bod yn gwerthfawrogi bod y ddwy arolygiaeth yn bresennol ar yr un pryd, gan nodi bod 'agwedd plant-cyfan a chyfleuster-cyfan'.</p> <p>Fodd bynnag, roedd ystod o wahanol fathau o leoliad yn rhan o'r cynllun peilot. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, byddai'n ymddangos bod mathau arbennig o leoliadau yn fwy addas ar gyfer derbyn arolygiad ar y cyd nag eraill. Er enghraifft, os oes tua'r un nifer o blant yn derbyn cyllid addysg â'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn, gall yr arolygiad ar y cyd weithio'n effeithiol iawn. Mae hyn yn arbennig o wir os yw'r lleoliad yn cynnal pob un o'i weithgareddau mewn un ystafell. Mae'n anoddach o lawer cynnal gwaith effeithiol ar y cyd mewn adeiladau mwy cymhleth sydd â nifer o wahanol ystafelloedd ynddynt. Mae'n anoddach fyth os yw nifer fawr o blant yn y feithrinfa nad ydynt yn derbyn cyllid addysg. Byddai'n ddefnyddiol iawn canfod faint o leoliadau sy'n bodloni'r disgrifiad hwn, er mwyn galluogi i'r arolygiaethau bennu p'un a oes angen cydbwysu eu cyfraniadau priodol yn wahanol mewn lleoliadau o'r fath. Fodd bynnag, gall yr anghydbwysedd fod yn sylweddol mewn rhai lleoliadau, ac mae angen canllawiau clir er mwyn mynd i'r afael â hyn.</p> <p>I ryw raddau hefyd, ceir diffyg eglurder ynghylch pa arolygwyr ddylai gasglu tystiolaeth yn erbyn pa elfennau o'r fframwaith. Mae rhai arolygwyr o'r fam o hyd ei fod yn aneglur p'un a ddylai arolygwyr AGGCC gasglu tystiolaeth gadarn ar gyfer Estyn ac i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn arbennig o ddyrys lle bo niferoedd mawr o blant nad ydynt yn derbyn cyllid addysg. Bu i rai parau o arolygwyr weithio'n dda gyda'i gilydd a rhannu'r dasg yn effeithiol, ond ni wnaeth hyn weithio mor dda i</p>

Maes i'w ystyried ymhellach	Sylwadau i gefnogi'r casgliad a gyrhaeddwyd
	<p>eraill. Nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn digwydd yn gyffredinol, ac mae angen mynd i'r afael â hyn.</p> <p>Roedd y prosesau golygu a sicrhau ansawdd ynghlwm â'r cynllun peilot yn estynedig, a daeth i'r amlwg fod anghysondebau o ran dulliau rhwng y ddau sefydliad. Sicrhawyd bod y broses yn gadarn drwy weithio gyda'i gilydd a gwnaed yn siŵr fod ansawdd yn cael ei gynnal drwy gydol y broses wrth gael golygyddion cyntaf ac ail. Fodd bynnag, mae dal angen sicrhau mwy o gysondeb fyth o ran dulliau sicrhau ansawdd yn ystod ail gam y cydweithio, o ystyried mae megis dechrau y mae hyn. Mae angen gwneud llawer o waith er mwyn sicrhau bod hyder yn cael ei gynnal ymhlith yr arolygwyr a'r lleoliadau ynglŷn â'r casgliadau a gyrhaeddwyd.</p> <p>Bydd hyn yn brawf effeithiol o'r strwythur llywodraethu diwygiedig ar gyfer y cynllun peilot a argymhellir uchod, ac mae'n gwbl hanfodol o ystyried yr angen i brofi'r dull hwn o weithio ar y cyd o ran straen.</p>

# Eitem 4.3

CYPE(5)-22-18 - Papur i'w nodi 3

## Note on customer feedback for the Childcare Service

### Monitoring customer service feedback

Customer service is monitored by an online exit survey from both the account pages and the registration pages. Once a customer has completed their activity within the service they are presented with the option to leave a satisfaction rating and any feedback around improvement suggestions.

At this stage the customer can opt to bypass this page and end the journey. If the customer does decide to complete the exit survey, they are presented with the following option;

*Overall, how did you feel about the service you received today?*

- *Very satisfied*
- *Satisfied*
- *Neither satisfied or dissatisfied*
- *Dissatisfied*
- *Very dissatisfied*

Once the customer selects the relevant option they can then leave any improvements suggestions in a free text box. We receive details all of the feedback and survey results from each day in a weekly report.

We also get details in Google Analytics of the survey results and can analyse the % rates using that tool. Each month a sample is taken from application feedback and account feedback to produce a monthly 'Postcard' which details the key themes customers are telling us about the issues they are having with the service as well as the positive feedback left too.

### Customer Surveys

HMRC have set up a comprehensive research and evaluation programme to monitor, understand and improve parent and providers experiences of the service. During the implementation of the childcare service, we have been monitoring performance against six Rollout Success Indicators:

RSI1 – Parent take up

RSI2 – Positive parent experience

RSI3 – Positive childcare provider experience

RSI4 – Positive reputation of Tax-Free Childcare

RSI5 – Minimise error and fraud within Tax-Free Childcare

RSI6 – Efficient service providing good value for money.

Our customer experience survey for the childcare service has been conducted on an ongoing basis since 2017 by IFF Research. This is conducted on a quarterly basis with parents and every six months with providers. The survey covers both Tax-Free Childcare and 30 hours childcare customers, and helps us understand their experience of the key touchpoints of the service – e.g. application/sign-up,

account usage, support usage; as well as providing an understanding of the impact of the Tax-Free Childcare. We also conduct in-depth research with customers through this research.

IFF Research also conduct qualitative research that seeks to understand what the key triggers and barriers to parents and providers taking up Tax-Free Childcare. This research is being conducted in several stages to understand how these change over time, and to allow us to feed in any findings into communication/marketing plans.

Ipsos MORI are currently conducting research with parents and providers. This study aims to understand the perceived impact of Tax-Free Childcare amongst parents and providers. For parents, it will explore the impact of the scheme on the decisions, choices and behaviour of parents in relation to childcare. For providers, it will seek to understand responses to the policy, focusing on decision-making, and drivers of behaviour in relation to organisation, pricing and profitability structures.

### Customer satisfaction rates

The satisfaction scores have gone from around the 76% mark in summer last year to 84% with an underlying steady increase as a result of the analysis done from the survey results leading to crucial insight for our development teams to implement IT improvements. We have seen issues involving, vouchers and the 30hrs claims being resolved which in turn has seen the customer satisfaction scores improve to their current level. The following table shows historic satisfaction ratings. Below that are listed notable events in the timeline.

May 17	June 17	July 17	Aug 17	Sept 17	Oct 17	Nov 17	Dec 17	Jan 18	Feb 18	Mar 18	Apr 18
72%	76%	76%	73%	71%	73%	77%	76%	75%	78%	82%	83%

Last week of April 2017 – Tax-Free Childcare begins its national rollout

September 2017 – start of the first term of 30 hours free childcare in England

January 2018 – start of the second term of 30 hours free childcare in England

April 2018 – start of the third term of 30 hours free childcare in England

Eitem 4.4

Huw Irranca-Davies AC/AM  
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol  
Minister for Children, Older People and Social Care



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref: MA - L/HID/0321/18

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

27 Mehefin 2018

Annwyl Lynne,

### Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Diolch am roi gwahoddiad imi ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Mehefin 2014 i drafod Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) ymhellach.

Yn ystod y sesiwn, roedd diddordeb arbennig gan Aelodau'r Pwyllgor mewn dysgu rhagor am addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen, sy'n rhan o'r cynnig o 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar ar gyfer rhieni sy'n gweithio.

Fel yr eglurais yn y cyfarfod, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sydd â'r prif gyfrifoldeb am addysg gynnar. Fodd bynnag, dywedais y byddwn yn mynd ar drywydd y materion penodol a godwyd, gan anfon nodyn manylach at y Pwyllgor wedyn, yn enwedig ynghylch y fframwaith deddfwriaethol; canllawiau i awdurdodau lleol a threfniadau cyllido ar gyfer addysg gynnar.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi darparu'r nodyn sydd ynghlwm, a byddwn yn awgrymu y dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau pellach mewn perthynas ag addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen at yr Ysgrifennydd Cabinet.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AC/AM**  
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol  
Minister for Children, Older People and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 76

## **Nodyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn sgil y cyfarfod ar 14 Mehefin i drafod y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

### **Canllawiau o ran y 10 awr o ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen i blant tair a phedair oed**

Y Cyfnod Sylfaen yw'n polisi blaenllaw i ddarparu cwricwlwm ar gyfer plant 3-7 oed sy'n ddatblygiadol briodol. Mae wedi'i fodelu ar ddulliau gweithredu o Sgandinafia. Mae addysg gynnar yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfeirio at y ddarpariaeth ar gyfer plant 3-4 oed yng Nghymru.

Mae'r canllawiau statudol sy'n ymdrin â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i blant tair a phedair oed yn cael eu cyhoeddi o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (“Deddf 1998”).

Mae adran 118(1) o Ddeddf 1998 yn darparu bod rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau darpariaeth ddigonol o addysg feithrin rhan-amser a llawn-amser i blant yn eu hardal nad ydynt eto wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol, neu'r oedran hwnnw a gaiff ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy Reoliadau.

O dan adran 118(2) o Ddeddf 1998, wrth bennu p'un a yw'r ddarpariaeth addysg feithrin yn ddigonol ar gyfer eu hardal, rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Yn wreiddiol, gosodwyd y ddarpariaeth ran-amser o 10 awr o leiaf mewn canllaw statudol (gweler tudalen 11 - Cylchlythyr 7/99 - *Canllawiau ar gyfer Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Lleol yng Nghymru*). Roedd cyfnod amser penodol ar y canllawiau hyn, a oedd yn cyfateb i gyfnod y cynlluniau gofal plant hy 1999 i 2003 ond mae llawer o awdurdodau lleol yn parhau i'w dilyn.

Ni ddaeth unrhyw dystiolaeth i'r amlwg sy'n awgrymu bod Awdurdodau Lleol yn darparu llai na 10 awr, nac yn bwriadu darparu llai na hynny. Mae llawer o Awdurdodau Lleol yn cynnig mwy na 10 awr.

### **Cyllid i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen**

Setliad Llywodraeth Leol: Darperir y rhan helaeth o'r cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) o fewn y cyllid bloc a roddir i Awdurdodau Lleol drwy'r setliad llywodraeth leol. Nid yw'r cyllid hwn wedi ei glustnodi gan ei fod yn ymwneud â chyllid ar gyfer swyddogaeth prif ffrwd. Trosglwyddwyd £17m (taliad untro) i'r setliad yn 2008-09 ar gyfer y “Blynyddoedd Cynnar”. Mae cyllid ar gyfer addysg ysgolion wedi ei warchod mewn setliadau o 2011-12 i 2016-17.

Grant Gwella Addysg: Mae'r Grant Gwella Addysg yn cael ei weinyddu gan y Consortia Addysg Rhanbarthol a rhaid dirprwyo o leiaf 80% ohono yn uniongyrchol i ysgolion. Fel rhan o delerau ac amodau'r grant, rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir i gyflwyno darpariaeth addysg o ansawdd uchel ac i sicrhau bod gan y darparwyr gyfradd briodol o gymarebau ymarferwyr i ddysgwyr.



Rhaid i awdurdodau lleol allu cadarnhau bod y fformiwla ar gyfer dosbarthu'r cyllid yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn unol â'r cymarebau.

Cyn y Grant Gwella Addysg, roedd cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddarparu drwy grant i Awdurdodau Lleol unigol. Yn 2014/15 roedd y grant yn £97m. Ers 2015/16, mae'r cyllid wedi cael ei gynnwys o fewn y Grant Gwella Addysg, er mwyn i Awdurdodau Lleol weithio tuag at gael y cymarebau staff i ddysgwyr sy'n angenrheidiol i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (1:8 ar gyfer meithrin a derbyn a 1:15 ym mlwyddyn 1 a blwyddyn 2)

Mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i bennu cyfradd y tâl a roddir i ddarparwyr y Cyfnod Sylfaen. Mae'r data yn gyfyngedig, ond mae'n awgrymu bod y gyfradd yr awr yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall, a hynny o £2.50 i £4.47 yr awr y plentyn, £3.00 yw'r canolrif. Mae rhai, hefyd, yn talu cyfradd wahanol i leoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir.

Bydd tystiolaeth o'r cynlluniau peilot ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, ac eraill sydd i'w cyflwyno yn yr hydref yn help i lunio dull gweithredu ar gyfer y dyfodol. Rydym yn edrych ar yr effaith bosibl ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys materion strwythurol ac ariannol, a allai gael effaith ar y gallu i gyflwyno'r ddarpariaeth yn effeithiol, yn ogystal ag ansawdd y ddarpariaeth.

Rwy'n cydnabod y peryglon a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg wrth gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant. Mae Swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y cyfleoedd a'r peryglon hynny yn cael eu hystyried a'u deall yn llawn wrth i ni barhau i roi'r Cynnig Gofal Plant ar waith ar draws Cymru. Rwy'n gwbl ymrwymedig i ddarparu Cyfnod Sylfaen rhagorol ar gyfer plant tair a phedair oed, a byddaf yn parhau i sicrhau bod hynny'n allweddol o ran datblygu unrhyw drefniadau newydd. Byddaf yn edrych ar sut y gallwn gryfhau arferion, trwy ganllawiau mwy effeithiol, er mwyn cryfhau'r Cyfnod Sylfaen.

**Kirsty Williams AC/AM**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**  
**Cabinet Secretary for Education**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd.  
CF99 1NA.

26 Mehefin 2018

Annwyl Lynne,

Mae'r gwaith datblygu ar y cwricwlwm newydd yn mynd rhagddo'n dda. Mae model cynnydd dysgwyr bellach wedi'i ddatblygu, sy'n rhan hanfodol i ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig heddiw hon yn rhoi'r diweddaraf i Aelodau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud, ond hoffwn hefyd dynnu sylw at y cyfathrebiadau a gyhoeddwyd yr wythnos hon i sicrhau bod y proffesiwn a rhanddeiliaid allweddol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Mae rhifyn arbennig o Dysg wedi'i gyhoeddi gyda'r diweddaraf ar ddatblygiadau ers mis Mawrth. Mae'n cynnwys:

- Fideo cryno ar weithgarwch eleni, gan edrych ymlaen at dymor yr hydref.
- Podlediad arbennig ar y Cwricwlwm: Graham Donaldson, Louise Hayward a Mark Priestley sy'n trafod y cefndir i'r Cwricwlwm, y sail resymegol iddo, a'r heriau sydd ynghlwm wrtho. Mae hyn yn dilyn lansiad ein podlediad Addysg Cymru cyntaf ym mis Ebrill.
- Papurau'n dangos sut y mae Meysydd Dysgu a Phrofiad yn datblygu fel rhan ganolog o'r Cwricwlwm, a blog cryno'n cefnogi hynny.
- Dilyniant a chynnydd sy'n sail i'r Cwricwlwm - wele'r model, a sut mae'n gweithio.

Dyma rai erthyglau a allai fod o ddiddordeb sydd wedi'u cyhoeddi ar flog Cwricwlwm i Gymru ers mis Mawrth:

- Adroddiad ymchwil: sut mae dilyniant dysgu'n cael ei gefnogi gan ymchwil
- Adroddiad Estyn sut mae ysgolion cynradd yn addasu eu cwricwlwm i ymateb i'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm ac addysg
- Podlediad Addysg Cymru: Mae'r bennod gyntaf yn esbonio ein diwygiadau ym maes addysg a sut maent yn cyd-fynd â'i gilydd
- Ysgolion yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu: astudiaethau achos newydd ar sut mae cydweithio'n fuddiol o ran dysgu proffesiynol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Aseidiadau ar-lein: yn fuan, bydd aseidiadau darllen a rhifedd yn symud ar-lein – sy'n beth da i'r cwricwlwm newydd.

Efallai yr hoffech hefyd edrych ar y gwefannau a thanysgrifio i gylchlythyron gan y consortia addysg rhanbarthol ac Estyn sy'n cefnogi ysgolion drwy ein rhaglen drawsnewid

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Trefniadau Asesu a'r Cwricwlwm Newydd

**DYDDIAD** 26 Mehefin 2018

**GAN** Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Hoffwn roi diweddariad i aelodau ar ddatblygiad y trefniadau asesu a'r cwricwlwm newydd sydd yn symud yn ei flaen yn dda, ac sydd ar amser, a bydd fersiwn drafft ar gael ym mis Ebrill 2019.

Bydd gan ysgolion wedyn gyfle i ddarparu adborth, i brofi a choethi, cyn iddynt gael mynediad i'r cwricwlwm derfynol o 2020, gan eu caniatáu i fod yn hollol barod ar gyfer ei weithredu'n statudol ym Medi 2022. Mae hyn yn ganolog i genhadaeth ein cenedl i godi safonau, i gau'r bwloch cyrhaeddiad a chreu system addysg sydd yn destun balchder cenedlaethol.

Ers Ionawr mae Ysgolion Arloesi sydd wedi cael eu cefnogi gan addysgwyr blaengar ledled y byd, Sefydliadau Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru a'n rhanddeiliaid i ddarparu cynnydd sylweddol.

Mae Ysgolion Arloesi wedi datblygu datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad - y ffyrdd o drefnu dysgu ar draws y cwricwlwm. Bydd y datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' yn datgan y wybodaeth a'r sgiliau sydd angen eu cyflawni a gyda'r bwriad o wneud yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu yn addas ar gyfer y byd y maent yn byw ynddi heddiw ac eu helpu i addasu i gymdeithas a byd sydd yn newid.

Dilynant a chynnydd sy'n sail i'n cwricwlwm a'n trefniadau asesu newydd. Mae'r prosiect CAMAU, a redir gan Yr Athrofa ac Y Drindod Dewi Sant, wedi cefnogi Arloeswyr yn y gwaith o ddatblygu'r ymagwedd hon. Bydd yn seiliedig ar gontinwrm dysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 3 a 16 oed.

Bydd y Camau Cynnydd yn cael eu pennu yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed, a byddant i'w gweld ar ffurf Deilliannau Cyflawniad a fydd yn berthnasol, yn fras, i'r disgwyliaid ar yr adegau hynny. Bydd y rhain yn helpu athrawon i drefnu dysgu mewn ffordd briodol ar gyfer pob dysgwr.

Mae Arloeswyr hefyd yn ystyried anghenion dysgu proffesiynol sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r Model Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a gaiff ei lansio yn yr hydref i gefnogi gweithwyr y sector i symud i'r cwricwlwm newydd.

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Estyn drywydd er mwyn helpu ysgolion i baratoi. Gall arweinwyr ysgolion ddechrau paratoi ar gyfer y newid nawr drwy ddefnyddio'r trywydd ac edrych ar yr astudiaethau achos ledled Cymru.

Mae ein diwygiadau yn cael eu datblygu mewn ffordd gydweithredol a thryloyw, gan gyhoeddi diweddariadau cyson. Yr wythnos hon, rydym wedi cyhoeddi 5 papur yn amlinellu ein hymagwedd tuag at y Meysydd Dysgu a Phrofiad, gyda phapur arall i ddod ym mis Gorffennaf. Rydym hefyd wedi cyhoeddi podlediad diweddaraf Addysg Cymru, sy'n rhoi sylw manwl i'r Cwricwlwm. Ynndo, mae Graham Donaldson, Mark Priestly a Louise Haywood yn trafod sut y mae ein diwygiadau'n rhoi addysg Cymru ar y map ar draws y byd.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb ddilyn ein cynnydd o ran y diwygiadau drwy danysgrifio i flog Cwricwlwm Cymru, gwrandao ar y podlediad y soniwyd amdano uchod, neu danysgrifio i dderbyn cylchlythyr addysg Llywodraeth Cymru, sef Dysg. Yr wythnos hon, mae'r rhifyn diweddaraf o Dysg yn canolbwyntio'n llwyr ar ddatblygiadau mewn perthynas â'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm newydd.

### Ysgol y Gyfraith

Prifysgol Bangor  
Adeilad Athrolys  
Gwynedd LL57 2DG

Ffôn: +44 (0) 1248 388 884  
E-bost: hayley.roberts@bangor.ac.uk



Bangor University  
Athrolys Building  
Gwynedd LL57 2DG

Phone: +44 (0) 1248 388 884  
E-mail: hayley.roberts@bangor.ac.uk

Wednesday, 27 June 2018

Dear Ms Madeley,

1. I note from the Children, Young People and Education Committee's agenda that the Cabinet Secretary for Education is due to be scrutinised tomorrow morning, one item being the school admissions policy pertaining to flexible school admissions for summer-born children. I would like to take the opportunity to support the letter submitted by the Flexible Admissions Group, Wales, and would like this letter to be distributed to the members of the Committee and the Cabinet Secretary.

2. Children do not have to start school until compulsory school age (CSA) at which point they enter Year 1 in the term following their fifth birthday. However, most children undertake a Reception year first, which research has consistently shown is the most important and impactful year in primary education.<sup>1</sup> Children generally start Reception in the Autumn term following their fourth birthday.

3. Nevertheless, owing to the timing of the entry points, summer-born children (1 April – 31 August) are put at a significant disadvantage compared to their peers. They may suffer adverse educational and emotional impacts as they start their formal education at a much younger age than their peers.

4. For this reason, parents may choose to defer their summer-born child's entry into school until CSA, as is their legal right. However, they may find that their child is put straight into Year 1, missing the crucial Reception year.

5. On this matter, the current School Admissions Code (2013) states that,

‘while it would not normally be appropriate for a child to be placed in a year group that is not concurrent with their chronological age, admissions authorities should consider these requests carefully and make decisions on the basis of the circumstances of each case and in consultation with the parents and the school, and specifically in relation to what is most beneficial to the child.’

In principle, this should give some flexibility for parents to request that their summer-born child be educated outside their normal age group and permitted to enter Reception year at CSA. However, in practice, the wording of the Code has proven to be extremely rigid and problematic and has made it very difficult for parents in Wales to exercise this choice. LEAs have implemented a blanket policy refusing virtually any such requests. The letter from the Flexible Admissions Group outlines some very useful case studies illustrating the problems with the application of this provision.

The Foundation Phase in Wales will not meet the needs of *every* child in Wales; it cannot. This must not be given as a reason for refusing such requests. A more flexible admissions policy is needed to take children's individual needs and their best interests into consideration. The UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC) emphasises that the education of *the child* shall be directed to the development of *the child's* personality, talents and mental and physical abilities to their fullest potential (Article 29(1)(a),

<sup>1</sup> See, for example, Teaching Schools Council, 'Effective Primary Teaching Practice Report' (2016).

emphasis mine).<sup>2</sup> By putting summer-born children at a disadvantage, this School Admissions Code does not achieve that.

6. A recent research study conducted by the Department for Education aimed to show that delaying entry to primary school has little impact on attainment. This study should be consulted by the Welsh Government with caution. This study was very limited, measuring only academic attainment and excluding all children with special or additional educational needs.

Academic attainment is very unlikely to be the main reason that parents choose to decelerate their child's entry into primary education. School readiness is not about a child's academic ability, but about emotional and social maturity. It is these skills that will help a child to cope with school life, to make friends, to deal with their emotions, to follow instructions and concentrate, and to foster good mental health. The attainment of these skills cannot be measured with a phonics test.


7. Other devolved countries within the UK are already ahead of Wales in this respect. Nick Gibb, Minister of State for School Standards, has made a commitment to amend the School Admissions Code for England to reflect this parental choice. In Scotland, children of equivalent age are automatically granted a deferral if their parents request it, and they will not miss any school years in doing so.

8. There is no statutory or otherwise legal barrier to children being educated outside their normal age group. It is a policy issue. I would urge the Cabinet Secretary to amend the School Admissions Code without delay, clarifying that schools can admit summer-born children to reception class at the age of 5, if that is their parents' choice, and ensuring that children can stay in this year group as they progress through school.

9. This would ensure that the School Admissions Code is more child-focussed, takes account of children's rights, and ensures consistency for LEAs across Wales.

10. As a legal academic with interest in this particular area, please let me know if I can be of further assistance to the Committee.

Yours faithfully,



Dr. Hayley Roberts  
Lecturer in Public International Law  
Bangor University

---

<sup>2</sup> The Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 places a duty on Welsh Ministers to have due regard to the UNCRC when exercising any of their functions.

**Kirsty Williams AC/AM**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**  
**Cabinet Secretary for Education**



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref: MA-L/KW/0340/18

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lynne Neagle  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd.  
CF99 1NA.

29 Mehefin 2018

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Mehefin, ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn mynegi pryder na fydd y Cod Trefniadaeth Ysgolion Drafft yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru tan yr hydref, yn hytrach nag yn yr haf fel yr oeddwn yn disgwyl fyddai'n digwydd yn wreiddiol. Esboniais y rhesymau dros yr oedi wrth y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am sicrwydd ynghylch y camau rwy'n eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw at ysbryd fy mholisi o ran rhagdybiaeth na fydd ysgolion gwledig yn cael eu cau a hefyd ynghylch y trefniadau y byddaf yn eu rhoi ar waith i ddiogelu ysgolion rhag bod penderfyniadau hirdymor yn cael eu gwneud yn eu cylch cyn i'r Cod gael ei gwblhau.

Yn gyntaf, mae'n bwysig pwysleisio unwaith eto nad yw rhagdybiaeth na chaiff ysgolion gwledig eu cau yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau – mae'n golygu yn hytrach bod yn rhaid i'r achos dros gau ysgol gwledig fod yn un cryf, ac na fydd yn cau hyd nes y bydd pob dewis ymarferol arall wedi'i ystyried yn drwyadl. Mae'n bwysig nodi hefyd mai i ysgolion a ddynodwyd fel rhai gwledig at y diben hwn yn y Cod diwygiedig y bydd rhagdybiaeth hon yn benodol berthnasol.

Rydw i wedi bod yn eglur iawn o ran trywydd y polisi hwn ac fy mod yn disgwyl i awdurdodau lleol weithredu mewn ffordd sy'n gyson ag ysbryd y newidiadau arfaethedig. Fodd bynnag, rydw i wedi dweud ar sawl achlysur nad yw'r Cod yn ôl-weithredol, ac na fydd unrhyw newidiadau i'r Cod presennol yn weithredol hyd nes bod ail fersiwn y Cod yn dod i rym. Gan gofio hynny, er fy mod wedi ei gwneud yn glir beth yw fy nisgwyliadau, nid oes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



unrhyw ofyniad statudol ar awdurdodau lleol a chynigwyr eraill i gydymffurfio â darpariaethau sydd yn ail fersiwn y Cod hyd nes y daw hwnnw i rym.

Ni all Gweinidogion Cymru wneud sylw ynghylch unrhyw gynigion a fydd o bosibl yn cael eu cyfeirio atynt i'w penderfynu. Fodd bynnag, yn unol â'r Cod presennol, cyn cyhoeddi hysbysiad statudol am gynnig ynglŷn â threfniadaeth ysgolion, rhaid i'r cynigwyr ymgynghori am gyfnod o 42 dydd o leiaf, gydag 20 ohonynt yn ddyddiau ysgol. Mae'r Cod yn gosod safon uchel ar gyfer ymgynghori, gan sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i rannu eu sylwadau, a bod y sylwadau hynny'n cael eu hystyried. Rydw i'n annog pawb sydd â diddordeb mewn cynnig i gau ysgol i leisio eu barn drwy'r broses ymgynghori statudol ac yn ystod y cyfnod gwrthwynebu a allai ddilyn yr ymgynghoriad.

Fy mlaenoriaeth nawr yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn toriad yr haf a threfnu i'r Cod diwygiedig gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydw i'n awyddus i sicrhau na fydd unrhyw oedi pellach a fydd yn atal y Cod rhag dod i rym cyn diwedd y flwyddyn.

Fel y cytunwyd, byddaf yn dangos y Cod i'r Pwyllgor cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education

**Eluned Morgan AC/AM**  
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**  
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Mehefin 2018

Annwyl Lynne,

Yn dilyn ein cyfarfod ym mis Tachwedd a fy llythyr atoch ym mis Chwefror, roeddwn i am roi gwybod i chi mod i bellach wedi penodi Cadeirydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim. Rwy'n parhau i groesawu'r craffu gwerthfawr a manwl gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ein dulliau o fynd ati i ddarparu gwaith ieuenctid yng Nghymru ac felly credaf ei bod hi'n briodol y dylech wybod am ganlyniad y broses recriwtio cyn gwneud y cyhoeddiad ffurfiol. Hyderaf y byddwch yn sicrhau y bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol tan hynny.

Byddaf yn gwneud y cyhoeddiad ar 29 Mehefin yn seremoni Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yn Stadiwm Principality Caerdydd. Yn ogystal â hyn, bydd Datganiad Ysgrifenedig hefyd yn cael ei gyhoeddi yn cynnwys manylion enillwyr eleni. Ar ôl dilyn egwyddorion y broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ac ar ôl ystyried nifer o geisiadau gan ymgeiswyr uchel eu safon, rwyf wedi penodi Keith Towler i swydd y Cadeirydd. Fe wyddoch mai Keith yw Cadeirydd Annibynnol Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, ei fod cyn hynny wedi llenwi swydd Comisiynydd Plant Cymru, a'i fod hefyd yn Aelod Cymru ar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Cefais gyfarfod â Keith ar 25 Mehefin gan bwysleisio bod gen i ddisgwyliadau uchel ar gyfer y Bwrdd hwn a'i rôl fel Cadeirydd. Yn ein trafodaeth, cytunwyd na ddylid ailadrodd yr hyn a wnaed yn y gorfennol. Mae gennym bellach gyfle i feddwl yn greadigol ac ystyried y ffordd orau o symud ymlaen wrth i ni ddatblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd hirdymor. Bydd sgiliau, gwybodaeth a phrofiad Keith oll yn bwysig wrth gefnogi'r agenda hon ac wrth i ni gydweithio i sicrhau cyfeiriad strategol i waith ieuenctid yng Nghymru.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AC/AM**  
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**  
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 87

## Eitem 4.9

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales

Health, Social Care and Sport Committee

Dr Tracey Cooper  
Chief Executive  
Public Health Wales

6 July 2018

Dear Tracey

Thank you for attending yesterday's meeting of the Health, Social Care & Sport Committee to answer questions on the work being done by Public Health Wales to protect and improve the health and well-being of the population of Wales.

During the course of the meeting, you agreed to provide the following additional information:

- An infographic used by Public Health Wales in dealing with adverse childhood experiences;
- Details of resilience work being done in relation to child and adolescent mental health services;
- Confirmation of the inclusion of neglect as an adverse childhood experience (ACE);
- Details of how funding is prioritised, including how Public Health Wales' health improvement programme spend is broken down across the life course;
- A breakdown of how staff are allocated across Public Health Wales, including the balance between research and delivery roles;
- Whether details are available on the number of people who survive sepsis but experience a reduced quality of life as a consequence;
- A copy of Public Health Wales' performance progress report;
- Details of capacity to respond to the expected increase in screening for bowel cancer when the new Faecal Immunochemical Test (FIT) test is introduced.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Seneddlechyd@cynulliad.cymru

[www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd](http://www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd)

0300 200 6565

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

[SeneddHealth@assembly.wales](mailto:SeneddHealth@assembly.wales)

[www.assembly.wales/SeneddHealth](http://www.assembly.wales/SeneddHealth)

0300 200 6565

There were also some areas that we were not able to cover due to time constraints, which I would be grateful if you could provide further information on:


- The Welsh Government's plan for health and social care is clear that primary care should be used more systematically as a vehicle for prevention and health improvement. To what extent does Public Health Wales actively pursue opportunities to strengthen health improvement and prevention in primary care?
- Does public Health Wales have robust evidence about the effectiveness and cost effectiveness of social prescribing?

As part of the inquiry into suicide prevention, there are also some issues which Members would be grateful for further details on:

- Members met with the Jacob Abraham Foundation who expressed concern at being unable to obtain hard copies of Help is at Hand Cymru to give to service users, and having to rely on the England version which is of more limited benefit to Welsh residents. Members were told that attempts were made by the Foundation to obtain a copy through Public Health Wales but that the response was unhelpful. The Committee would be grateful if you could clarify the position regarding the availability of Help is at Hand Cymru, and the promotion by Public Health Wales of this resource.
- An update on when Public Health Wales expects the next Thematic Review of deaths of children and young people through provable suicide to be published.

I look forward to receiving your response in due course.

Yours sincerely



Dr Dai Lloyd AM  
**Chair, Health, Social Care and Sport Committee**

